# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN,<br>24 MEDI 2018 am 2.00 o'r gloch yp | | MONDAY,<br>24 SEPTEMBER, 2018 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**2** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd a ganlyn :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 19 Mehefin, 2018.
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 9 Gorffennaf, 2018.

**4** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18 - BWRDD PARTNERIAETHAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU</u>** (Tudalennau 17 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion.

**5** **<u>PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL</u>** (Tudalennau 41 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn).

**6** **<u>RHAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 81 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig<br><br>**Aelodau Etholedig a wahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 5**<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Aled Morris Jones, R O Jones. |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaeth (Tai, Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi) (ar gyfer Eitem 4),<br>Rheolwr Adfywio (DL) (ar gyfer Eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD) (ar gyfer Eitem 6),<br>Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant (GMH) (ar gyfer Eitem 7),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes ac Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs Rita Lyon – Prif Swyddog Gweithredol – (Cymunedau Ymlaen Môn ) |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd John Griffith fel aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini yn dilyn ei rôl fel Deilydd Portffolio Cyllid.

Fe ddymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Cynghorydd Robin Williams, cyn aelod o'r Pwyllgor, a oedd wedi cymryd drosodd y rôl Deilydd Portffolio Cyllid.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel rhai cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2018.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2018.

## 4 CYMUNEDAU'N GYNTAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Tai mewn perthynas â gweithgareddau a pherfformiad Cymunedau'n Gyntaf yn ystod 2017/18 a chynlluniau amlinellol ar gyfer 2018/19.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) bod yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu'r cyllid y mae Cymunedau'n Gyntaf yn ei dderbyn gan yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru. Un o'r prif raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Rhaglen Gwrth Dlodi, Y rhaglen Cymunedau Gwaith a'r Rhaglen LIFT sydd â'r nod o wella rhagolygon pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Nododd, yn hanesyddol fod Cymunedau'n Gyntaf wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tai er mwyn datblygu eu rhaglenni. Sefydlwyd Cymunedau'n Gyntaf i ddechrau er mwyn darparu cymorth i'r wardiau mwyaf difreintiedig yn Ynys Môn ond yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cabinet Cymunedau a Phlant y byddai'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn dod i ben ym Mawrth 2017, mae Cymunedau Ymlaen Môn bellach yn darparu cymorth a chyngor ar draws y rhan fwyaf o wardiau ar draws yr Ynys. Dywedodd Mrs Rita Lyon – Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) fod Cymunedau'n Gyntaf bellach wedi ei ail frandio yn Cymunedau Ymlaen Môn. Nododd fod Cymunedau Ymlaen Môn wedi sicrhau cyllid gan WEFO (Swyddfa Cyllid Ewrop Cymru) er mwyn darparu 'Rhaglen Gymorth Mewn Gwaith' sy'n targedu pobl sydd mewn cyflogaeth ond sy'n cael eu tangyflogi h.y. pobl mewn cyflogaeth rhan-amser neu'r rhai hynny sy'n ceisio gwella eu cyflogaeth. Mae Cymunedau Ymlaen Môn yn agor swyddfa newydd ym Mhorthaethwy y mis hwn er mwyn rhoi cymorth a gwasanaethau i ardal Seiriol. Dymunodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) ddiwygio'r adroddiad a oedd gerbron y Pwyllgor a oedd yn darllen 'Rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith' – 72 o bobl wedi ymgysylltu â'r prosiect ac 18 o bobl wedi eu cael i mewn i gyflogaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a codwyd y materion canlynol:-

- Gofynnwyd am eglurhad ar gyflawniad y rhaglen LIFT a gynigwyd gan Cymunedau'n Gyntaf. Ymatebodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) mai prosiect peilot am gyfnod o 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru oedd LIFT. Roedd Ynys Môn yn un o naw ardal Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf a gafodd ei hadnabod er mwyn targedu pobl sydd allan o waith am gyfnod dros dro; pobl sydd wedi treulio mwy na chwe mis allan o waith neu hyfforddiant; pobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf er mwyn gallu cael eu cyflogi h.y. rhieni sengl ifanc, oedolion ag ond ychydig neu ddim cymwysterau ffurfiol, pobl â record cyflogaeth wael ac unigolion ag anableddau. Mae'r rhaglen LIFT ar Ynys Môn wedi gweithio gyda 402 o unigolion ac wedi cael 144 o bobl yn ôl i waith dros

gyfnod y cynllun a ddaeth i ben ym Mawrth 2018. Nododd fod y cynllun bellach wedi'i ddisodli gan y cynllun Cymunedau am Waith + a ariennir drwy WEFO. Gofynnwyd am gadarnhad pellach am faint o bobl sy'n aros mewn cyflogaeth ac a oedd Cymunedau Ymlaen Môn yn gallu monitro a chefnogi'r unigolion hyn. Ymatebodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) bod y gwaith o fonitro pobl sydd wedi dychwelyd i'r gwaith drwy Cymunedau Ymlaen Môn yn cael ei wneud bob chwe mis a bydd unigolion sy'n disgyn allan o'r cynllun yn cael eu dychwelyd ar gyfer cymorth gan Cymunedau Ymlaen Môn. Nododd fod y bobl hyn wedi bod allan o waith am gyfnod hir ac y gall fod yn anodd addasu yn ôl i'r amgylchedd gwaith.

- O ganlyniad i Gymunedau Ymlaen Môn yn ehangu i gymunedau eraill yn Ynys Môn, awgrymwyd y dylai'r data ar bobl o fewn wardiau penodol ac ardaloedd sydd wedi manteisio ar y cyfleusterau a gynigir gan Gymunedau Ymlaen Môn gael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2018/19. Holwyd a fyddai modd i Gymunedau Ymlaen Môn gynnig cymorthfeydd symudol mewn ardaloedd gwledig. Ymatebodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) ei fod yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ond mai dim ond ers mis Ebrill y mae'r sefydliad wedi gallu fforddio adnoddau ar draws y wardiau ar yr Ynys ac y bydd yn cymryd amser i drefnu cyfleuster o'r fath megis cymorthfeydd symudol.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at Cymunedau Ymlaen Môn yn dychwelyd i Amlwch er mwyn darparu gwasanaethau, hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn cael pobl yn ôl i'r amgylchedd gwaith. Gwnaed sylwadau fod cymuned leol Amlwch i weld yn anymwybodol o Gymunedau Ymlaen Môn a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) fod Amlwch yn un o lwyddiannau Cymunedau'n Gyntaf Môn sydd â pherthynas waith dda gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a Hyfforddiant Parys. Dywedodd y byddai'n rhoi ystadegau i aelodau lleol Amlwch o ran nifer y cyrsiau hyfforddiant a fynychwyd gan y trigolion.
- Holwyd a oedd gan Cymunedau Ymlaen Môn gyllid digonol er mwyn eu galluogi nhw i ddarparu gwasanaethau ar draws ar yr Ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) fod rhagolwg y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn £1.1m y mae cyllid Llywodraeth Cymru yn ei roi drwy'r Awdurdod Lleol. Dywedodd, fel Prif Swyddog Gweithredol Cymunedau'n Gyntaf Môn ei bod yn hyderus bod y cyllid wedi'i ddiogelu tan 2021 er mwyn galluogi'r sefydliad i wneud ei waith. Cyfeiriodd Aelodau at yr ansicrwydd mewn perthynas â Brexit a'r effeithiau posibl ar nawdd grant i sefydliadau fel Cymunedau Ymlaen Môn. Ymatebodd Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) fod yr ansicrwydd o ran nawdd grant yn dilyn Brexit yn rhywbeth y mae'r holl sefydliadau sy'n ddibynnol ar arian Ewrop yn ei wynebu.
- Mynegwyd pryderon am y siopau gwag yn nhrefi'r Ynys a Chaergybi yn benodol. Ymatebodd Prif Swyddog Gweithredol (Cymunedau Ymlaen Môn) fod gan Cymunedau'n Gyntaf yn 2012 fenter a oedd, gyda chymorth yr Awdurdod Lleol, yn galluogi pobl i agor busnes bach heb orfod talu rhent am gyfnod yng Nghaergybi. Nododd ar hyn o bryd mai 8% o siopau Caergybi sy'n wag.
- Codwyd cwestiynau o ran y risg y mae'r Awdurdod yn ei gymryd er mwyn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau Ymlaen Môn er mwyn darparu Cymunedau am Waith + , Cymunedau dros Waith a'r Cyllid Etifeddiaeth. Nododd fod y sefydliad dros y blynyddoedd wedi gallu perfformio ac wedi gallu rhoi gwasanaethau i bobl ar y cyd ag amcan Cynllun y Cyngor i gefnogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial a gwella ansawdd eu bywydau a'u llesiant.

Holodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor yn dymuno parhau i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ar ôl i Lywodraeth Cymru ddod â'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i ben. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylai Cymunedau Ymlaen Môn gyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bob blwyddyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cydnabod perfformiad Cymunedau Ymlaen Môn yn ystod 2017/18 yn ystod y flwyddyn derfynol o ddarparu Cymunedau'n Gyntaf;**
- **Y bydd Cymunedau Ymlaen Môn yn parhau i adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bob blwyddyn.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

**5 CYNLLUNIAU ADFYWIO AMLWCH A BIWMARES**

*(Gwahoddwyd Aelodau Lleol Wardiau Twrcelyn a Seiriol i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r eitem hon).*

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Adfywio mai dyhead y Cyngor Sir yw gyrru adfywio cymunedol drwy ddatblygu cynlluniau tref a chymuned holistaidd ar gyfer prif aneddiadau'r Ynys. Nododd fod gan y pum tref gydnabyddedig yn Ynys Môn nodweddion gwahanol a bod hyn wedi effeithio ar lefel y buddsoddiad sector preifat ar gyfer adfywio ym mhob tref. Cafodd y nodweddion allweddol sy'n gallu effeithio ar fuddsoddiadau o'r fath eu hamlygu i'r Pwyllgor yn yr adroddiad. Nododd ymhellach fod y pum tref wedi elwa yn y gorffennol o fuddsoddiadau cyfalaf adfywio megis yr hyn a sicrhawyd gan y Cyngor gan Asiantaeth Datblygu Cymru a rhaglen 'Môn a Menai' Llywodraeth Cymru. Mae prif arian adfywio cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun lefelau uwch o dargedu daearyddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i Llywodraeth Cymru yn gynyddol fod angen blaenoriaethu ei adnoddau prin ar nifer llai o aneddiadau strategol. Mae Caergybi a Llangefni yn ddiweddar wedi denu lefelau sylweddol o fuddsoddiadau cyfalaf drwy Lywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd ac arian Loteri ond mae'n profi'n anoddach i'r Cyngor sicrhau cyllid tebyg ar gyfer prosiectau mewn trefi llai o ran maint a sy'n llai difreintiedig. Nododd y Swyddog fod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno yn ddiweddar y dylai Swyddogion lobïo i sicrhau bod arian adnewyddu ar gael i drefi llai ac ardaloedd gwledig. Mae rhaglenni cyllido gwledig y DU yn parhau i ddarparu sgôp ar gyfer buddsoddiad mewn aneddiadau llai ond mae'r cyllidebau hyn fel arfer yn fwy cyfyngedig e.e. LEADER, Y Gronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) a Chynllun Isadeiledd Amwynder Twristiaeth (TAIS). Cafodd tabl yn rhestru rhai o'r prosiectau/materion allweddol sydd ar y gweill neu o dan ystyriaeth eu rhestru yn yr adroddiad a oedd gerbron y Pwyllgor.

- Cwestiynau a godwyd gan yr Aelodau Etholedig Lleol, Ward Twrcelyn:-

  Holwyd pam nad yw ardal Amlwch yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer prosiectau adfywio fel y mae Trefi tebyg ar yr Ynys sydd â phoblogaeth debyg. Cyfeiriodd

yr Aelodau yn benodol at safle Rhosgoch, tir ger Maes Mona, Canolfan Hamdden Amlwch, Harbwr Amlwch (defnydd posibl o gronfa pysgodfeydd yr UE ar gyfer gwelliannau i gyfleusterau'r harbwr), Adeiladau Gwag h.y. safle Octel a chyfleusterau sy'n berchen i'r Cyngor (Porth Amlwch) sydd wir angen buddsoddiad er mwyn galluogi tref Amlwch i ddenu cyfleoedd cyflogaeth a thwristiaeth i'r ardal. Mynegwyd pryderon nad oes cyllid wedi'i ddarganfod tuag at brosiectau adfywio yn ardal Amlwch a'r pentrefi cyfagos. Dywedodd yr Aelodau Lleol nad oedd unrhyw amserlen wedi'i nodi ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn Amlwch.

Ymatebodd y Rheolwr Adfywio, mewn perthynas â lefel y buddsoddiad yn ardal Amlwch, mai nod Cynllun Adfywio Ardal Amlwch yw darparu dogfen weledol sy'n adnabod gwelliannau y gellir eu cyflawni ar gyfer ardal Amlwch sy'n seiliedig ar ymgysylltu â chymunedau lleol am eu blaenoriaethau. Nododd, er bod gan Llangefni boblogaeth tebyg a ffigyrau tebyg o ran diweithdra a hawlwyr budd-daliadau, bod Ward Tudur yn Llangefni wedi'i hadnabod fel ardal hynod ddifreintiedig ac yn gallu sicrhau arian ar gyfer prosiectau yn y Ward honno. Nododd ymhellach, er mwyn sicrhau cyllid gan yr UE, bod angen sicrhau cyllid cyfatebol er mwyn i ddatblygiadau allu cael eu gwireddu. Cyfeiriodd at rai o'r safleoedd a gafodd eu crybwyll gan yr aelodau lleol a oedd mewn perchnogaeth preifat e.e. safleoedd Rhosgoch ac Octel. Nododd bod modd i'r Awdurdod gefnogi a thrafod y posibiliadau ar gyfer cyflogaeth ar y safleoedd hyn.

Nododd yr Aelodau Lleol fod safle Rhosgoch wedi'i ddynodi yn Barth Menter a bod modd denu nawdd grant ar gyfer prosiectau posib ar safleoedd o'r fath. Mynegwyd hefyd fod angen i Dref Amlwch a phentrefi lleol allu manteisio ar brosiect Wylfa Newydd a chyfleoedd adfywio a allai godi o ganlyniad i ddatblygiad o'r fath.

Cyfeiriodd y Rheolwr Adfywio at Borth Amlwch a'r posibilrwydd o nawdd pysgodfeydd UE. Nododd fod cyllid yr UE wedi'i dargedu tuag at gychod pysgota ac nid cychod pleser fel sydd wedi'i awgrymu gan y gymuned leol. Cyfeiriodd at Ganolfan Hamdden Amlwch a nododd fod cynllun gwella yn cael ei ystyried ar gyfer gwelliannau i'r Ganolfan.

- Cwestiynau a godwyd gan Aelod Etholedig lleol Ward Seiriol:-

  Mynegodd y Cynghorydd Lewis Davies y bu diffyg buddsoddiad yn nhref Biwmares dros y blynyddoedd o gymharu â threfi mwy ar yr Ynys. Nododd fod gan y brif stryd ym Miwmares nifer o siopau gwag a bod isadeiledd y dref yn dirywio. Mae cyfran y cartrefi gwyliau yn y dref wedi cynyddu ac mae diffyg y tai rhent a thai cymdeithasol yn destun pryder. Nododd fod y Cyngor Tref yn cefnogi cael tai cymdeithasol ar safle'r ysgol gynradd leol ond fod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu sefydlu cyfleuster Gofal Ychwanegol ar y safle. Mynegodd hefyd mai tref Biwmares sydd wedi gweld y mwyaf o wasanaethau sydd ar gael i drigolion yn cael eu trosglwyddo i wirfoddolwyr, gwirfoddolwyr sy'n gyfyngedig o ran niferoedd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y tirlithriad ar ffordd yr A545 rhwng Porthaethwy a Biwmares a olygodd bod yn rhaid i drigolion ac ymwelwyr deithio ar hyd ffyrdd bychan er mwyn cael mynediad i'r

dref. Ymatebodd y Rheolwr Adfywio drwy nodi bod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn cryfhau rhan o ffordd yr A545 i Fiwmares.

Nododd y Cynghorydd Davies ymhellach fod ganddo bryderon difrifol bod yr adroddiad yn nodi nad oes capasiti ac adnoddau staff ar gael ar hyn o bryd er mwyn datblygu cynlluniau adfywio yn yr ardal yn y dyfodol agos. Holodd beth oedd pwrpas yr adroddiad os nad oedd adnoddau na chapasiti ar gael i adfywio Tref Biwmares. Ymatebodd y Swyddog Adfywio bod gwaith yn cael ei wneud ar ogledd yr Ynys a rhagwelir y bydd yr adnoddau ar gael er mwyn ymgymryd â'r gwaith yn ardal Biwmares yn y man. Dywedodd y Swyddog hefyd y bydd y gwaith yn cael ei wneud i drafod potensial safle Lairds sy'n wag ar hyn o bryd.

Dywedodd y Swyddog Adfywio hefyd bod diweithdra a diffyg tai cymdeithasol yn broblem mewn cymunedau ac yn enwedig pan nad yw cyfran uchel o gartrefi gwyliau ar gael fel llety rhent i bobl ifanc lleol. Mynegodd, tra bo tai cymdeithasol a llety rhent yn fater i'r Gwasanaethau Tai, bod gwaith wedi'i wneud er mwyn ystyried y Clwb Cymunedol lleol, sydd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd, fel safle posibl ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol yn nhref Biwmares.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod buddsoddiad wedi digwydd yn nhref Biwmares wrth i waith gael ei wneud ar y wal ger y môr, yr angorfeydd, y pier ac wrth i gyllid gael ei ddiogelu i wneud gwaith ar yr A545. Dywedodd ei fod yn cytuno bod angen datblygu'r hen safle Lairds ond, am nifer o wahanol resymau, na chafodd y safle ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ac ystyriwyd fod yr adroddiad wedi dod gerbron y Pwyllgor yn rhy fuan a bod angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ymhen chwe mis pan fydd cynlluniau yn eu lle er mwyn sicrhau bod modd gweithredu rhai o'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Y dylid paratoi cynllun adfywio ar gyfer ardal Amlwch;**
- **Nodi bodolaeth nifer o gynlluniau a gwahanol faterion sydd o dan ystyriaeth ar gyfer Amlwch a Biwmares;**
- **Y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis pan fydd cynlluniau yn eu lle a fydd yn galluogi rhai o'r prosiectau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad i gael eu gweithredu.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 6 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini fod gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn rhan bwysig o arferion gwaith yr Awdurdod, sy'n rhoi gwytnwch ychwanegol i gapasiti'r Awdurdod i allu darparu gwasanaethau. Mae nifer o adroddiadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi tynnu sylw at yr angen i wella a chryfhau trefniadau

sgriwtini partneriaeth o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd hefyd bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn tynnu sylw ar yr angen i gryfhau'r gwaith o graffu partneriaethau a'i fod yn rhoi cynaliadwyedd hirdymor wrth wraidd y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dylunio a'u darparu ac y rhoddir pwyslais hefyd ar gyrff cyhoeddus yn cydweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau gwell canlyniadau rŵan ac yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini hefyd fod gan y Cyngor Sir brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Gyda phwysau cynyddol ar gyllid cyhoeddus, mae gan y Cyngor ganllawiau clir yn eu lle er mwyn penderfynu pryd i sefydlu partneriaethau, pa wasanaeth(au) sy'n briodol a'r canlyniadau a ddisgwylir ohonynt ac ar gyfer rheolaeth gadarn o'r berthynas. Nododd fod y Pwyllgor Gwaith, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2016 wedi cymeradwyo Polisi Partneriaethau Corfforaethol fel sylfaen ar gyfer gwaith partneriaeth yr awdurdod a hefyd fel fframwaith ar gyfer arwain trefniadau monitro partneriaeth. Nododd ymhellach fod y Cyngor yn cadw cofrestr o'r holl bartneriaethau allweddol, a adolygir yn rheolaidd.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at y Flaen Raglen Waith 2018/19 a nododd fod angen i'r gwaith o graffu partneriaethau gael ei wneud a'i reoli mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Roedd rhestr o'r prif waith partneriaeth wedi'i chynnwys ym mharagraff 5.9 o'r adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Holwyd a oes sefydliadau pwysig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y 'Gofrestr Partneriaethau'. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) ei bod hi'n bwysig peidio â dyblygu gwaith o ran y sefydliadau hyn. Nododd fod rhai adrannau eraill yn y Cyngor yn delio gyda ac yn cefnogi rhai sefydliadau e.e. Sefydliadau Addysgol a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd hefyd y dylai'r 'Gofrestr Partneriaethau' gynnwys y prif bartneriaethau sy'n derbyn nawdd gan yr Awdurdod.
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran faint o arian y bydd y sefydliadau hyn ei dderbyn gan yr awdurdod hwn. Ymatebodd y Rheolwr Sgriwtini, unwaith y bydd y Pwyllgor hwn wedi penderfynu ar y prif bartneriaethau i'w cynnwys ar y 'Gofrestr' y byddai'r wybodaeth o ran cyllid, a ddylai gynnwys 'capasiti ac argaeledd staff', yn cael ei darparu i'r Pwyllgor yn y man;
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu monitro'r partneriaethau hyn y mae'n eu cefnogi. Ymatebodd y Rheolwr Sgriwtini fod gan yr Awdurdod hwn fframwaith i fonitro gwaith partneriaeth â sefydliad; bydd contract yn cael ei lofnodi rhwng y sefydliad, sy'n ddibynnol ar natur y bartneriaeth, â'r Awdurdod hwn. Mynegodd nad yw rhai partneriaethau â'r Cyngor yn derbyn cyllid gan y Cyngor ond fod y cysylltiad yn hanfodol os yw'r Cyngor yn mynd i gyflawni ei nodau. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) bod strwythur y gwaith partneriaeth yn hanfodol o fewn y broses fonitro.

**PENDERFYNWYD nodi a chefnogi:-**

- **Craffu'r partneriaethau allweddol yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod 2017/18.**

- **Nodweddion sgriwtini partneriaeth effeithiol (a drafodwyd ym mharagraff 5.6 o'r adroddiad) fel sylfaen i ddatblygu ein trefniadau sgriwtini lleol ymhellach;**
- **Partneriaethau allweddol sydd wedi'u hadnabod (ym mharagraff 5.9 yr adroddiad) i'w blaenoriaethu ym mlaen gynllun y Pwyllgor, dros gyfnod o 2 – 3 blynedd;**
- **Camau nesaf arfaethedig fel y nodir ym mharagraff 5.9 yr adroddiad.**
- **Bod strwythur y gwaith partneriaeth yn hanfodol o fewn y broses monitro.**

**GWEITHRED: Fel y nodir uchod.**

## 7 PANEL SGRIWTINI – ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan Banel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion a Swyddogion Cymorth mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Cadeirydd, fel Cadeirydd y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion, ers yr adroddiad cynnydd diwethaf a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn ar 6 Chwefror, 2018 bod y Panel wedi cyfarfod 5 gwaith. Mynegwyd fod y Panel yn ystyried hi'n briodol ei fod yn monitro'r Ddarpariaeth o Wasanaethau Dysgu/Cynllun Gwella ac ystyrir y bydd angen cryfhau'r Cylch Gorchwyl.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant fod y Panel Sgriwtini wedi canolbwyntio ar y pethau canlynol ers 6 Chwefror, 2018:-

- Mae pedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd wedi bod gerbron y Panel ar wahanol ddyddiadau;
- Cyn bob cyfarfod, bydd y Panel yn derbyn data perfformiad yr ysgol ac adroddiad ysgrifenedig cryno gan yr Uwch Swyddog Safonau a Chynhwysiant. Bydd y Panel hefyd yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a dderbynnir gan Swyddog GwE sydd ar gael ym mhob cyfarfod i drafod y gefnogaeth a roddir i'r ysgolion er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad.
- Ar 9 Chwefror, derbyniodd y Panel ddiweddariadau hanfodol mewn perthynas â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad y Gymraeg drwy'r system Addysg. Derbyniodd y Panel drosolwg o'r heriau sy'n wynebu ysgolion penodol, ynghyd â chrynodeb o'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn bodloni'r Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2021.
- Ar 20 Ebrill, ystyriodd y Panel yr heriau a'r gwersi i'w dysgu wrth agor ysgolion newydd.
- Ar 8 Mehefin, adolygodd y Panel y gwelliannau mewn ysgol a welwyd gyntaf ym mis Hydref 2017. Cafodd y Panel ei ddarbwyllo bod yr ysgol ar y trywydd cywir ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn y chwe argymhelliad a gafodd eu hadnabod gan Estyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) fod gwaith y Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion: yn hanfodol er mwyn herio a gwella safonau ysgolion yr Ynys. Bydd canlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr ynys yn rhoi syniad o'r gwelliannau o fewn addysg er mwyn gallu cydymffurfio â meini prawf disgwyliedig Estyn.

Ailadroddodd y Deilydd Portffolio Addysg fod gwaith y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi bod yn hanfodol er mwyn gallu herio a gwella ysgolion. Nododd fod un ysgol wedi bod gerbron y Panel ar ddau achlysur. Mynegodd nad yw ysgolion wedi bod yn cwblhau hunan-werthusiadau gonest a manwl gywir sy'n cyd-fynd â disgwyliadau GwE. Dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg fod y Siartr Iaith Gymraeg wedi dod yn bell er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn ddewis iaith pob dydd; mae Polisi Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod yr holl ysgolion yn dilyn y Cwricwlwm Cymraeg iaith Gyntaf ac na fydd y Cymhwyster Cymraeg Ail Iaith ar gael yn y dyfodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac fe godwyd y materion canlynol:-

- Mae rôl Llywodraethwyr Ysgolion ynghyd â'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion yn hanfodol er mwyn gwella addysg ar yr Ynys. Roedd y Deilydd Portffolio Addysg yn cytuno'n gyfan gwbl bod rôl aelodau etholedig fel Llywodraethwyr Ysgolion yn un hanfodol;
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran a yw Penaethiaid Ysgolion yn derbyn cymorth ac arweiniad pan fyddant yn dod gerbron y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant fod y Panel Sgriwtini wedi aeddfedu o ran yr elfennau o ddeall cryfderau a gwendidau o fewn meysydd penodol yn yr ysgolion ac o ran sut maent yn gallu herio unigolion pan fyddant yn cael eu galw gerbron y Panel. Nododd mai dyhead yr Awdurdod, GwE ac ysgolion ar yr Ynys yw gallu darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddisgyblion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r gwaith y mae'r Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion yn ei wneud a diolch i Aelodau'r Panel am eu gwaith;**
- **Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Panel (fel a ddangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad);**
- **Cymeradwyo i'r negeseuon allweddol yn yr adroddiad gael eu tynnu at sylw'r Deilydd Portffolio (Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid) a'r Pennaeth Dysgu.**

**GWEITHRED: Fel y nodir uchod.**

**8 ENWEBIADAU I'R PANEL SGRIWTINI CYLLID A'R BWRDD TRAWSNEWID ADDYSG**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas ag enwebu un Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Bwrdd Trawsnewid Addysg.

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini, o ganlyniad i benodi'r Cynghorydd Robin Williams fel Deilydd Portffolio Cyllid, bod angen i'r Pwyllgor enwebu Aelod newydd yn lle y Cynghorydd Williams ar y Panel a'r Bwrdd.

**PENDERFYNWYD enwebu:-**

- **Y Cynghorydd John Griffith ar y Panel Sgriwtini Cyllid;**
- **Y Cynghorydd Margaret M Roberts ar y Bwrdd Trawsnewid Addysg.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 9 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mehefin 2019.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini bod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w gynnal ar 9 Gorffennaf, 2018 er mwyn ystyried y Strategaeth Gwrthdlodi.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mehefin 2019.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Tai (EL),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs Sian Purcell – Prif Swyddog, Medrwn Môn.<br><br>Cynghorydd Alun Mummery – Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau (eitem 4 yn unig) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim

**3 MEDRWN MÔN**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Sian Purcell, Prif Swyddog Medrwn Môn i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol gan Brif Swyddog Medrwn Môn.

Adroddodd Prif Swyddog Medrwn Môn mai nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr ynys. Mae Medrwn Môn yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth o blith mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol. Mae'n rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n weithredol ledled Cymru. Daw'r cyllid tuag at eu gwaith craidd o Lywodraeth Cymru drwy'r WCVA. Nododd ymhellach bod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan fwyfwy pwysig a dynamig yn eu cymunedau ac mae Medrwn Môn yn hyrwyddo, cefnogi a datblygu pob math o wirfoddoli, gwirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol ar lefel leol, gan

gydnabod bod eu cyfraniad unigryw yn rhoi manteision i'r rhai sy'n defnyddio / derbyn y gwasanaeth, cymunedau lleol a'r gwirfoddolwyr hwy eu hunain.

Nododd mai dyma’r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 ac y cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18 yn yr hydref ac y byddai’n fodlon mynychu’r Pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn adrodd ar eu gwaith yn y cymunedau lleol. Cyfeiriodd at y ffaith bod Medrwn Môn yn rhedeg rhaglen Lleisiau Lleol sy'n cael ei hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Yn ogystal mae Lleisiau Lleol yn sicrhau ffyrdd effeithiol i alluogi unigolion a chymunedau i leisio barn a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan ofalu bod darparwyr gwasanaeth yn cael clywed beth yn union y mae ar y gymuned ei angen. Mae’r model 'Adeiladu Cymunedau' wedi'i fabwysiadu i hwyluso'r broses, drwy ddefnyddio'r dulliau ymgynghori gwahanol i greu darlun o holl asedau'r gymuned sy'n amrywio o wasanaethau lleol; adeiladau a llecynnau gwyrdd; pobl, gwybodaeth a sgiliau; i rwydweithiau lleol a gweithgareddau cymunedol.

Cyfeiriodd Prif Swyddog Medrwn Môn at Gynghrair Seiriol a dderbyniodd £10,000 o gyllid datganoledig gan Gyngor Sir Ynys Môn fel prosiect peilot a, gyda chyngor a chefnogaeth Medrwn Môn, fe rannwyd y cyllid rhwng 3 Cyngor Cymuned ar y sail eu bod yn ymgysylltu gyda'u cymunedau ar sut bydd yr arian yn cael ei wario. Nododd y datganolwyd cyllid o'r Gronfa Gofal Canolraddol i Medrwn Môn allu ymgysylltu gyda thrigolion yn Llanfairpwll yn ystod proses o nodi’r angen am Hyb Gymunedol yn yr ardal. Wrth ddefnyddio model 'Adeiladu Cymunedau' a ddatblygwyd drwy ein prosiect Lleisiau Lleol, fe wnaeth Medrwn Môn gynnal nifer o sesiynau mapio yn yr ardal yn ogystal â digwyddiadau agored a sesiynau grwp ffocws. Roedd y dystiolaeth yn dangos mai'r Neuadd Goffa yn Llanfairpwll fyddai'r lleoliad gorau ac mae prosiect Lleisiau Lleol wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a thrigolion eraill i nodi sut y gall y cyllid cyfalaf gael ei wario. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar ddechrau'r Haf ac mae'r gweithgareddau a adnabuwyd yn ystod y broses ymgynghori yn awr ar gael drwy Hyb Cymunedol Llanfairpwll, ar ei newydd wedd, ers i'r Hyb gael ei lansio yn Nhachwedd 2016. Mae Bryngwran a Llanfaelog yn 2 hyb ychwanegol sy’n derbyn cymorth Medrwn Môn erbyn hyn. Mae'r ddau hyb yma wedi gweithio gyda Lleisiau Lleol i greu ffordd o ddal gwybodaeth am asedau lleol a hefyd gwybodaeth am yr hyn yr oedd pobl leol yn teimlo yr oeddynt eu hangen yn yr hybiau. Nododd fod 7 hyb mewn cymunedau lleol ar yr ynys bellach wedi eu sefydlu ac yn derbyn cefnogaeth gan Medrwn Môn.

Cyfeiriodd ymhellach at y cynllun Linc Cymunedol Môn sy’n gweithredu fel Un Pwynt Mynediad ar gyfer pobl Ynys Môn i gael gwybodaeth am fudiadau trydydd sector. Mae Linc Cymunedol yn derbyn cyswllt uniongyrchol gan unigolion, ond hefyd yn derbyn cyfeiriadau gan y Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Dywedodd y bydd cynllun ‘Presgribsiynu Cymdeithasol’ yn cael ei sefydlu eleni gyda Medrwn Môn yn gallu derbyn atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu i amrywiaeth o wasanaethau lleol a ddarperir gan sefydliadau sector cymunedol. Mae’r cynllun hwn er mwyn cefnogi unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain. Bydd y cyllid ar gyfer y cynllun yn dod drwy gyfuniad o gyllid gan Fwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, clystyrau Meddygon Teulu a’r Gronfa Gofal Integredig.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac fe godwyd y prif faterion canlynol:-

- Gofynnwyd am gadarnhad o ran y cyllid ychwanegol a dderbynnir gan Medrwn Môn i gyflogi staff er mwyn cyflawni prosiectau penodol. Ymatebodd y Prif Swyddog fod gan Medrwn Môn 9 aelod o staff parhaol a bydd 5 Cydlynydd Asedau Lleol yn cael eu cyflogi am gyfnod o 2 flynedd. Dywedodd hefyd fod cyllid wedi'i dderbyn drwy'r prosiect 'Plant Mewn Angen' er mwyn ariannu'r Cyngor Ieuenctid gyda gweithiwr ar secondiad yn cyflawni'r rôl fel Cydlynydd Prosiect am gyfnod o 3 blynedd;
- Gofynnwyd am gadarnhad ar y cyllid y mae Medrwn Môn yn ei dderbyn. Ymatebodd y Prif Swyddog bod Medrwn Môn yn 2018/19 yn derbyn £36,000 drwy'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) tuag at waith Cyswllt Cymunedol Môn a £74,000 drwy'r Gronfa Gofal Integredig tuag at waith y Cydlynwyr Asedau lleol – mae'r ddau brosiect hwn yn rhan o brosiect ehangach ar Presgribsiynu Cymdeithasol mewn partneriaeth â'r Clystyrau meddygon Teulu a Betsi Cadwaladr. Derbyniodd Medrwn Môn £8,500 pellach tuag at gyllid craidd. Holodd y Pwyllgor ymhellach a yw'r Cyngor Sir yn derbyn Datganiad Cyfrifon Medrwn Môn. Dywedodd, gan fod Medrwn môn yn gwmni elusennol cofrestredig bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i 'Dŷ'r Cwmnïau' a'u bod ar gael ar-lein i'r cyhoedd. Cytunodd y gellid cyflwyno copi o Ddatganiad Cyfrifon Medrwn Môn i'r Pwyllgor Sgriwtini;
- Cyfeiriwyd at fodel 'Cynghrair Seiriol' a holwyd a fydd prosiectau tebyg yn cael eu hymestyn i ardaloedd eraill ar yr Ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog y rhagwelir y bydd prosiectau megis yr un yn ardal Seiriol yn cael eu hymestyn i ardaloedd eraill a chyfeiriodd at y strategaeth 'Cynllunio lle' sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdod lleol. Dywedodd hefyd fod 'Cynghrair Seiriol' wedi cymryd amser i ddatblygu ond bod gwersi wedi eu dysgu ac mai'r gobaith yw y byddai cynlluniau tebyg yn datblygu'n gynt;
- Gofynnwyd am gadarnhad a fydd hybiau cymunedol eraill ar gael mewn lleoliadau eraill ar yr Ynys gan fod gwasanaethau statudol yn dod yn fwy dibynnol ar gyrff gwirfoddol. Ymatebodd y Prif Swyddog bod potensial i ddatblygu hybiau pellach o fewn cymunedau lleol a cyfeiriodd at y cyfleusterau yn y Tŷ Coffi, Llanfaethlu, Siop Mechell, Llanfechell a chynllun 'Tro Da' ym Menllech a nododd bod yna hefyd hybiau swyddogol sydd wedi'u mabwysiadu o fewn trefniadau'r Cyngor Sir sy'n hyrwyddo cymunedau i ddod ynghyd er mwyn sicrhau gwell cyfleusterau o fewn eu hardaloedd;
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran a oes diffyg gwirfoddolwyr mewn rhai cymunedau. Ymatebodd y Prif Swyddog ei bod yn ymddangos mai'r un bobl sy'n gwirfoddoli yn y gymuned leol. Ychwanegodd fod Medrwn Môn wedi bod yn targedu pobl y tu allan i ysgolion a chanolfannau hamdden er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol/prosiectau o fewn eu hardaloedd ac er mwyn annog mwy o bobl i wirfoddoli yn eu cymunedau. Holodd Aelodau a oedd modd i Medrwn Môn gefnogi Cynghorau Cymuned i hyrwyddo gweithgareddau lleol. Ymatebodd y Prif Swyddog gan ddweud nad oes modd i Medrwn Môn weithio'n uniongyrchol â Chynghorau Cymuned oherwydd strwythur y llywodraeth sy'n atal gwasanaethau cyhoeddus rhag cael eu cefnogi gan gorff o'r fath. Fodd bynnag, dywedodd y gall Medrwn Môn roi arweiniad o ran ffynonellau cyllido. Nododd ymhellach fod cynrychiolydd o Medrwn Môn yn aelod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned;

- Gwnaed sylwadau fod gwefan Medrwn Môn wedi dyddio a bod angen ei ddiweddaru. Ymatebodd y Prif Swyddog ei bod yn gwerthfawrogi'r sylwadau a nododd y bydd gwefan Medrwn Môn yn cael ei diweddaru dros y misoedd nesaf;
- Gofynnwyd am gadarnhad ar sut mae Medrwn Môn yn cymharu â chyrff gwirfoddol tebyg eraill o fewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ymatebodd y Prif Swyddog gan ddweud, o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth da â'r Cyngor Sir, bod model Medrwn Môn yn unigryw ac yn uchel ei barch ymysg awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a gofyn i Medrwn Môn fynychu'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn adrodd ar eu gwaith ar yr Ynys fel y gellir craffu'r bartneriaeth gyda'r cyngor.**
- **Bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol gan Medrwn Môn.**

**4 STRATEGAETH GWRTHDLODI**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai nad oes Strategaeth Gwrthdlodi yn bodoli yn y Cyngor ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen hon wedi'i chydnabod fel blaenoriaeth ar gyfer rhaglen waith yr Uned Strategol Gwasanaethau Tai ar gyfer 2017/18 sydd wedi'i yrru gan Gynllun Corfforaethol 2017/2022. Nododd mai un o'r negeseuon cryfaf o ran gwrthdlodi yng Nghymru ar hyn o bryd yw bod mwy o bobl o oed gwaith yn dioddef tlodi ar hyn o bryd o gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Dywedodd ymhellach nad yw'r gair 'tlodi' o reidrwydd yn golygu rhywun â dim arian, gall olygu pobl yn teimlo nad oes modd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ar lefel gymunedol ac efallai diffyg gallu i gael nwyddau neu gael mynediad i wasanaethau hanfodol. Mae gan y Cyngor Sir rôl i hyrwyddo strategaethau sy'n galluogi pobl i gael mynediad i'r gwasanaethau sydd ar gael ac hefyd i geisio arwain pobl tuag at wasanaethau nad yw'r Cyngor yn eu darparu. Mae'r Strategaeth gwrthdlodi wedi bod yn destun trafodaeth fewnol o fewn y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgareddau o fewn gwasanaethau a gyda phartneriaid a datblygu dull o fesur effaith y gwasanaethau ar ddelio â thlodi mewn cymunedau ar yr Ynys. Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ym Mai 2018 drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan gorfforaethol y Cyngor ond nododd na dderbyniwyd unrhyw adborth gan y cyhoedd ond y derbyniwyd ymateb da gan bartneriaethau sy'n gweithio gyda'r Cyngor ac sy'n dymuno bod yn rhan o'r strategaeth.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Tai unwaith eto fod y Strategaeth Gwrthdlodi yn ddogfen gorfforaethol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac y dylai fod yn rhan o'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a codwyd y prif faterion canlynol:-

- Gwnaed sylwadau fod Cyngor ar Bopeth Ynys Môn wedi nodi bod mwy na £1.2 miliwn o fudd-daliadau a oedd ar gael i bobl Ynys Môn yn mynd heb eu hawlio. Codwyd cwestiynau am sut y gall gwasanaethau sicrhau bod y bobl hynny sy'n gymwys i gael budd-daliadau o'r fath yn gallu gwneud cais a sut y gellir sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau tai bod Swyddogion Cynhwysiant Cymdeithasol wedi eu penodi yn y Gwasanaethau Tai ac y bydd un swyddog yn gweithio o fewn y sector preifat er mwyn codi ymwybyddiaeth am hawliau i fudd-daliadau. Dywedodd fod pobl yn methu â hawlio budd-daliadau yn fater cenedlaethol, fel rhieni yn methu â hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn. Nododd y Pwyllgor ymhellach nad yw pobl yn cael eu harwain tuag at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a'u bod felly yn colli allan yn ariannol;
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran pa bartneriaethau sy'n gweithio gyda'r awdurdod yr ymgynghorwyd â nhw mewn perthynas â'r strategaeth hon. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai enghraifft o'r mathau o sefydliadau y mae'r Gwasanaeth Tai yn cydweithio'n agos â nhw h.y. Medrwn Môn, CAB a'r Cymdeithasau Tai. Nododd hefyd fod gan wasanaethau eraill bartneriaethau â gwahanol sefydliadau y byddant yn cydweithio â nhw. Codwyd cwestiynau pellach am y ffordd y bydd yr awdurdod yn monitro datblygiad y Strategaeth Gwrthdlodi. Ymatebodd y Swyddog gan ddweud y bydd yn her o ran y Strategaeth hon gan y bydd yn ddogfen y bydd angen i bob gwasanaeth fynd i'r afael â hi a nododd y dylai pob gwasanaeth ei mabwysiadu fel rhan o'u Cynlluniau Darparu Gwasanaeth;
- Cyfeiriwyd at atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn nodi canran y plant a oedd yn byw mewn tlodi ar Ynys Môn. Gofynnwyd sut yr oedd cymhareb tlodi plant yr awdurdod yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai gan ddweud bod y lefel o dlodi plant yn uwch mewn rhai ardaloedd o Gymru na'i gilydd. Gwnaed sylwadau y gall diffyg tai cymdeithasol a llety rhent fod yn ffactor ac y gallai'r broblem waethygu unwaith y bydd y prosiect Wylfa Newydd yn dechrau ac fe allai llety fod yn broblem ddifrifol ar yr Ynys.
- Cyfeiriwyd at y sylwadau yn yr adroddiad mewn perthynas â 'Chryfhau teuluoedd a chymunedau'. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth i deuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar a mynediad amserol i wasanaethau megis gwasanaethau iechyd meddwl'. Fe'i ystyriwyd yn rhagfarnllyd awgrymu bod pobl sy'n dioddef tlodi angen mwy o wasanaethau iechyd meddwl nag unrhyw un arall a bod angen newid yr adroddiad i ddarllen 'mynediad mwy amserol i wasanaethau megis gwasanaethau iechyd'. Cyfeiriwyd hefyd ar y ffaith nad yw tlodi o reidrwydd yn golygu bod pobl yn dlawd ac ar fudd-daliadau; mae mathau gwahanol o dlodi e.e. pobl yn gweithio ar gyflogau isel, pobl â phroblemau iechyd ac anableddau a phobl sydd â safon wael o addysg.

Roedd yr Aelodau yn ystyried bod angen i bob adran yn y Cyngor fabwysiadu'r ddogfen bwysig hon a bod angen rhoi hyfforddiant i'r holl staff rheng flaen.

Mynegodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau fod hon yn ddogfen bwysig a cytunodd bod angen i'r Strategaeth Gwrthdlodi gael ei chynnwys a'i blaenoriaethu ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai gymeradwyo'r Strategaeth Gwrthdlodi a bod pob gwasanaeth yn blaenoriaethu'r strategaeth yn eu gwaith o ddydd i ddydd a'i fod yn amcan i bob gwasanaeth ei chynnwys yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth.**

## 5 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd ar fis Mehefin 2019.

Ystyriodd Aelodau y dylai:-

- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gael ei wahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i roi trosolwg o'i rôl a'i gyfrifoldebau ac i adrodd ar y Cynllun Heddlu a Throsedd 2017 – 2021.
- Medrwn Môn gael eu gwahodd i'r Pwyllgor Sgriwtini bob blwyddyn er mwyn adrodd ar eu gwaith ar yr Ynys er mwyn craffu ar y bartneriaeth â'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at Mehefin 2019 ac i wahodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol ac i Medrwn Môn fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor i gyflwyno eu Hadroddiad Blynyddol.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Partneriaeth ag Adfywio |
| **Dyddiad:** | 24 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad Blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Alwyn Jones – Adroddiad Rhanbarthol wedi ei ysgrifennu gan Bethan Jones Edwards Cyngor Sir Ddinbych<br>Alwynjones3@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.

Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2017-18 yn feysydd gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gynnal cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

Hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2017-18. Yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1).

Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2017-18.

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Diben Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau. Gellir felly disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth

- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw amlinellu'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi ei wneud ac edrych ar sut y mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Mae risg o ran sicrhau cydymffurfiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r arweiniad ar lunio adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 wrth lunio’r adroddiad blynyddol. Y risg mwyaf yw a fydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu gwneud cynnydd gyda’r amrywiol ofynion yn unol â Rhan 9 yr arweiniad ac a fydd y bartneriaeth yn datblygu i alluogi rhagor o waith partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

**3.4** Craffu’n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Gweler Atodiad 1

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

- Unrhyw faterion o eglurhad ynglŷn a rôl y Bwrdd Partneriaethau
- Unrhyw faterion o eglurhad ynglŷn â gwaith y Bwrdd yn 2017-18
- Unrhyw faterion o eglurhad ynglŷn â chynlluniau y bwrdd i'r dyfodol
- Pa gynlluniau i’r dyfodol oes am fwy o “ cyfuno” cyllidebau awdurdodau lleol.

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn cyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2018 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar sut i gwblhau adroddiadau blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, ac mae’r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn angenrheidiol ei chynnwys yn unol â’r canllawiau hynny (Atodiad 2). Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi ei

ysgrifennu ar fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau sawl aelod o'r Bwrdd.

Y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i ddiwallu gofynion Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu â, a rhoi gwybodaeth i'r awdurdodau lleol i ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 y Ddeddf a datblygiad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, heblaw gydag aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth lunio'r adroddiad hwn.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Yn berthnasol i brosiectau unigol o dan oruchwyliaeth y bwrdd |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn derbyn cyllid drwy'r Grant Cyflawni'r Agenda Trawsnewid i gefnogi'r gwaith rhanbarthol ac yn cefnogi gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn 2017-18 trosglwyddwyd cyllid Cyflawni'r Agenda Trawsnewid i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Awdurdodau Lleol a chaiff hwn ei gyfuno'n rhanbarthol. Ymgymerir â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gan aelodau o'r tîm Cydweithio Rhanbarthol sydd hefyd yn cael eu hariannu o'r ffynhonnell ariannol hon. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad 1 Adroddiad Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim Papurau Pellach |

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Mae’r adroddiad hwn wedi’i lunio i fodloni’r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Cynnwys:** **Tudalen**


1. Rhagair gan y Cadeirydd ........................................................................ 3
2. Cyflawniadau o fewn y Flwyddyn ................................................................ 3
3. Rôl, Pwrpas ac Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ................................ 7
4. Gofynion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ......... 9
5. Cyfeiriad Strategol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Cynllun Ardal) .... 10
6. Strwythur Llywodraethu ........................................................................ 14
7. Integreiddio Gwasanaeth a Gwella Canlyniadau ................................................ 16
8. Darpariaeth Statudol ........................................................................ 19
9. Blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y Dyfodol ........................................................ 20




## 1. Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru



Y Cynghorydd Gareth Roberts, Cadeirydd, Aelod Arweiniol, Cyngor Gwynedd:

*Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru rwyf yn hynod falch o gynnydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Rydym yn sicr, fel y rhanbarth fwyaf yng Nghymru, wedi profi heriau, ond rwyf yn falch iawn ein bod wedi llwyddo mewn sawl agwedd o'n cydweithrediad a gwaith integredig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer mwy i'w wneud ond hyderaf y byddwn yn gallu adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd wedi'u gosod ac y byddwn yn gallu darparu'r math cywir o arweinyddiaeth strategol leol ar iechyd a gofal cymdeithasol. Fel Bwrdd rydym yn gosod heriau i'n hunain yn barhaus ac yn cael ein herio gan ein cynrychiolwyr Trydydd Sector, Unigolyn a Gofalwr er mwyn sicrhau ein bod yn eglur ac yn hyderus ein bod yn gwneud yr hyn sy'n gywir ar gyfer ein poblogaeth, ac rydym o'r farn y byddwn yn gallu cyflawni hyn drwy gadw'r atebolrwydd am newid yn agosach at yr unigolion rydym yn eu gwasanaethu.*

*Dros y flwyddyn, rydym wedi treulio cryn dipyn o amser fel Bwrdd i gymell integreiddiad gwasanaethau yn y meysydd blaenoriaeth fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf a datblygu ymagwedd ranbarthol gyda darpariaeth leol. Rydym wedi datblygu Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol ac mae hon yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer y rhanbarth gyda'r holl bartneriaid yn dangos eu hymrwymiad i gydweithio ar gyfer y dyfodol. Mae ein cyflawniadau fel Bwrdd, hyd yma, yn unol â'n taith i integreiddio a chredwn y gall cyllidebau cyfunol fod yn rhan allweddol o ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol, ond bod rhaid gwneud hyn ar yr adeg gywir yn natblygiad gwasanaethau integredig.*

*O ystyried maint daearyddol y rhanbarth a nifer y partneriaid sy'n gysylltiedig, rydym yn ymwybodol iawn nad ydym eisiau colli golwg ar yr hyn sy'n bwysig i'n poblogaeth ar lefel leol; ac rydym yn hynod falch o gyhoeddi bod canfyddiadau'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol â'n hymagwedd ac edrychwn ymlaen at gyflawni argymhellion yr adroddiad. Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i holl aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ein bod wedi ymdrin â llawer o faterion cymhleth. Edrychaf ymlaen at Gadeirio'r Bwrdd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019.*

## 2. Uchafbwyntiau a Chyflawniadau o fewn y Flwyddyn

Safbwynt cynrychiolydd y Gofalwr

Mae graddfa a chyflymder y gwaith a wneir gan y Bwrdd hwn yn enfawr ac yn frawychus. Yn amlwg, mae yna gyfyngiad ar faint o gyfranogiad dinasyddion sy'n briodol ar y lefel strategol hon ond os nad yw strategaeth yn adlewyrchu profiad a dyhead y dinesydd, yna ni fydd yr ymarfer chwaith.

Bu aelodau'r Bwrdd yn groesawgar iawn ond mae natur y Byrddau hyn o'r fath fel ei fod yn golygu bod bwydo persbectif y dinesydd i drafodaethau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaeth, yn waith heriol i ddweud y lleiaf. Mae'r Bwrdd yn amlwg yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Ymddengys bod rhannau o Ddeddf 2014 sy'n ymwneud â strwythur a llywodraethu sefydliadol yn cael eu deall yn dda [i'r graddau yr wyf i'n eu deall!] ond ni ddeallir Cymorth dan Gyfarwyddyd y Dinesydd, y Model Cymdeithasol o Anabledd, Byw'n Annibynnol ac Eiriolaeth Annibynnol gystal: mae'r ddealltwriaeth gyffredinol yn wael ac mae dealltwriaeth ymarferol yn enwedig yn anghyson ac mewn mannau yn gwrthsefyll newid.

Safbwynt aelod Cabinet Awdurdod Lleol

Mae'r BPRhGC wedi datblygu'n sylweddol ers iddo gael ei sefydlu ac mae gwaith sylweddol yn digwydd ar lefel strategol ac yn weithredol i integreiddio gwasanaethau, ac i gefnogi'r gwaith yn lleol i wella ein gwasanaethau i ddinasyddion Gogledd Cymru. Mae ffrydiau gwaith blaenoriaeth yr BPRhGC yn symud ymlaen ac fel rhanbarth rydym yn symud tuag at gytuno ar ymagwedd ranbarthol gyda chyflenwi lleol. Fel Aelod Cabinet, cefais fy annog i ddarllen argymhellion yr Adolygiad Seneddol ac i arwain gyda chydweithwyr wrth ddatblygu ein cynllun rhanbarthol gyda phartneriaid ar ran y BPRhGC.

Safbwynt Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Ers i'r BPRhGC ddod i fodolaeth, mae wedi aeddfedu'n sylweddol ac mae'r Bwrdd yn datblygu ei ddull strategol o ddarparu gwasanaethau integredig a hyrwyddo darpariaeth leol.

Mae'r adroddiad yn dogfennu bod llawer o waith yn digwydd ledled Gogledd Cymru ac rydym yn falch o weld bod yr agwedd strategol at yr Adolygiad Seneddol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Byddem yn cadarnhau ein hymrwymiad i gyfeiriad rhanbarthol ar y meysydd blaenoriaeth, fodd bynnag, byddem yn awgrymu dull mwy cynhwysol o ran llais y gofalwr a'r defnyddiwr gwasanaeth.

Ar adegau cafwyd heriau wrth osod arweiniad strategol ar y cyd, byddai'r trydydd sector yn dadlau nad yw'r mecanwaith ar gyfer darparu arweinyddiaeth o'r fath yn gynhwysol a gallai fod yn ddoeth ail-edrych ar lywodraethu ac aelodaeth maes o law.

Mae'r naratif wedi cael ei ddominyddu gan faterion allweddol dros y flwyddyn, er enghraifft, gofal heb ei drefnu a gwasanaethau pobl hŷn. Mae angen inni ganolbwyntio ar ddeall ymhellach y pwysau a'r cyfleoedd mewn meysydd eraill megis iechyd meddwl a gwasanaethau plant. Gyda chymaint o bartneriaid ac ôl troed daearyddol mor eang, mae'n gredyd i'r bwrdd ein bod wedi dangos eglurder tuag at feysydd datblygu a gallwn ddangos cynnydd. Rydym yn parhau i geisio sicrhau'r cydbwysedd rhwng strategaeth leol a rhanbarthol a darparu gofal cymdeithasol ac iechyd, fodd bynnag, ni allwn gymryd yn ganiataol y gellir cyflawni pob un yn lleol, ond rydym yn cydnabod bod 'cryfder mewn niferoedd' a bod cysondeb yn allweddol i unigolion lle bynnag maen nhw yn byw ar hyd ôl troed Gogledd Cymru. Mae hyn hefyd yn cwmpasu ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ac fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae taith bellach i'w chymryd mewn perthynas â newid diwylliant tuag at ddylunio gwasanaeth sydd wir yn canolbwyntio ar y dinesydd.

Safbwynt cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi'r cyfle unigryw y mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ei dwyn o ran trafodaethau ledled Gogledd Cymru yn y meysydd blaenoriaeth fel yr amlinellir yn y Ddeddf. Rydym yn falch bod Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei ethol yn Is-gadeirydd y BPRh, gan nodi ein hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth.

Rydym yn falch bod ein gwaith fel partneriaeth wedi'i adeiladu'n gryf ar y gwaith asesu anghenion poblogaeth a wnaed ym 2016/17. Mae hyn yn ein galluogi i dargedu a chanolbwyntio ein hymdrechion ar draws Gogledd Cymru, i'n cymunedau a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn falch o weld y gwaith ar iechyd plant (gyda ffocws ar y plant hynny ag anghenion cymhleth) yn ymddangos ar raglen y BPRh ac i dynnu sylw at y gwaith strategol a wneir gan ystod o bartneriaid. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni mwy ac erbyn hyn mae gennym gynllun cadarn i symud camau gweithredu yn eu blaen.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu gwaith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar wasanaethau pobl hŷn, gan gynnwys dementia. Mae'r amser a dreulir mewn cyfarfodydd (a thu allan) sy'n canolbwyntio ar y strategaeth iechyd meddwl ar gyfer Gogledd Cymru, a'r diweddariadau rheolaidd a rennir rhwng asiantaethau'r BPRh yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu arni.

Gan adlewyrchu ar 2017/18, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi:

- Y trafodaethau arddull 'gweithdy cadarnhaol' sydd wedi'u cynnal i ddatblygu'r gwaith rhwng cyfarfodydd ffurfiol. Mae'r rhyngweithio rheolaidd hwn a'r ffocws ar faterion allweddol ar y cyd wedi bod yn fuddiol ac mae'n sylfaen dda ar gyfer trafodaethau partneriaeth eraill.
- Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd (ac asiantaethau eraill) i fod yn rhan o drafodaethau Gogledd Cymru ar nifer o faterion / rhaglenni rhanbarthol beirniadol trwy ei aelodaeth. Mae hyn yn cynnwys y gwaith ar gynhwysiant digidol, y strategaeth gweithlu rhanbarthol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC).

Yn olaf, ym mlwyddyn yr Adolygiad Seneddol, bydd y BPRhGC yn ein galluogi i ddatblygu a chryfhau ein gwaith yn yr ardal mewn partneriaeth ag asiantaethau.

Safbwynt cynrychiolydd(cynrychiolwyr) y trydydd sector

Mae'r Sector Gwirfoddol yn croesawu'r cyfle i chwarae rôl lawn a gweithredol yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Bu'n ddymuniad hir i'r sector weithio ochr yn ochr â'n partneriaid statudol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol a thargedig sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae'r egwyddorion y tu ôl i'r Ddeddf yn adlewyrchu'r gwerthoedd a'r canlyniadau y byddai'r Sector Gwirfoddol yn hoffi eu gweld ar waith yn ein holl wasanaethau wrth symud ymlaen. Mae'r pwyslais ar rymuso unigolion i helpu eu hunain a chwilio am atebion cymunedol i gynnal annibyniaeth wastad wedi bod y piler canolog o ran gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gweld y sector statudol, annibynnol a gwirfoddol yn dod at ei gilydd mewn partneriaeth gyfartal i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu yn cael ei gymeradwyo, ond

mae angen gwaith o hyd gan bawb ar alinio'r theori gyda'r ymarfer i'w wneud yn wirioneddol effeithiol.

Fel cysyniad newydd, mae'r BPRhGC a'i weithrediadau wedi bod yn gromlin ddysgu bwysig iawn i bawb dan sylw. Fel cynrychiolydd o'r Trydydd Sector bu nifer o heriau, ac nid y lleiaf ohonynt yw'r ymrwymiad amser sydd ei angen i gynrychioli barn y sector yn briodol a chefnogi nod strategol y bwrdd.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cyngor y mae ein partneriaid statudol wedi eu darparu mewn sawl cam o'r BPRh. O ran deall gweithrediadau cyllid y Gronfa Gofal Integredig (GGI) a chymhlethdodau cyllidebau cyfun, mae partneriaid statudol wedi mynd allan o'u ffordd i sicrhau bod cynrychiolwyr y Trydydd Sector yn cael eu cefnogi i ddeall gwaith manwl a chymhleth yr GGI.

Rhaid i'r Trydydd Sector fod yn rhan annatod o'r BPRhGC er mwyn cyflawni integreiddiad gwasanaethau'n llwyddiannus gyda Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar draws ardal ddaearyddol fawr.  Mae cynrychiolaeth ar y BPRhGC yn sicrhau bod llais y Trydydd Sector yn rhan bwysig o unrhyw ystyriaeth.

Mae yna lawer o heriau ac ni ddylid eu cymryd yn ysgafn. Mae cydnabyddiaeth o anghenion y rhai sy'n defnyddio'r Trydydd Sector yn hanfodol ac mae'n rhaid clywed eu llais ond gellir esgeuluso hyn yn rhwydd.

Ar draws y BPRhGC mae yna nifer o gyrff Trydydd Sector sydd i gyd yn ysu i gael eu clywed ac i gymryd rhan gan ddefnyddio eu sgiliau unigol i gynorthwyo i symud gwaith o fewn y Ddeddf yn ei flaen.

Drwy'r her a wneir gan Gynrychiolaeth y Trydydd Sector y gallwn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod ystyried y Trydydd Sector yn dod yn beth awtomatig.

Gyda llwyth gwaith heriol y BPRhGC mae'n rhy hawdd i esgeuluso sut y bydd eu penderfyniadau yn effeithio ar unigolion. Dylem bob amser geisio sicrhau bod yr effaith yn bositif i'r boblogaeth a wasanaethwn.

Mae dwy flynedd wedi mynd yn gyflym iawn ac mae wedi cymryd y cyfnod hwn i deimlo'n aelod dilys o'r Bwrdd ac i deimlo bod gan y gynrychiolaeth rywfaint o bwysau ac ni ddylid colli'r momentwm hwn a gymerodd gymaint o amser i'w sefydlu.

Safbwynt Cynrychiolydd Cyfetholedig

Mae bod yn aelod o'r Bwrdd ers ei sefydlu yn sicr wedi rhoi cipolwg gwych mewn i'r heriau a chyfleoedd y mae integreiddio gwasanaethau yn ei gyflwyno, ac yn ategu'r angen am gydweithio gwirioneddol, a thra bod y rhethreg yn dda, mae angen i gyflymder y newid gyflymu.  Dwi'n credu bod ymagwedd BPRhGC tuag at Banel Dinasyddion Gogledd Cymru yn eithaf unigryw o ran ei ddylunio a'i swyddogaeth ac mae'n sicrhau bod lleisiau nad oedd wedi cael eu clywed o'r blaen yn cael eu hystyried a'u deall.

Fel aelod cyfetholedig Heddlu Gogledd Cymru ar Fwrdd Partneriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru, rwy'n ymwybodol bod natur newidiol trosedd a'r galw yn gosod heriau sylweddol arnom ni, yn enwedig mewn cyfnod pan mae cyllidebau wedi bod yn lleihau mewn termau real dros sawl blwyddyn. Er mwyn sicrhau bod Gogledd Cymru yn parhau i fod yn un o'r llefydd

mwyaf diogel yn genedlaethol, yna mae'n rhaid i ni integreiddio gwasanaethau yn well, a gweithredu'n fwy cydweithredol er lles ein cymunedau. Wrth gwrs mae deddfwriaeth yn gosod rhwymedigaethau ar iechyd a gofal cymdeithasol i ddod ynghyd fel hyn trwy waith y bwrdd, ond rwy'n credu bod dyletswydd arnom ni fel sefydliad i chwilio am ffyrdd newydd a gwahanol o weithio i sicrhau y gallwn gefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas. Mae'r bwrdd yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu â phartneriaid statudol a thrydydd sector er mwyn cyflawni hyn ac rwy'n croesawu aelodaeth barhaus y grŵp.

## 3 Rôl, Pwrpas ac Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

*Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi sut y mae BPRhGC wedi gweithredu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, dinasyddion ac amlinellu'r trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni sydd ar waith; mae hefyd yn cynnwys y pwrpas, rôl, blaenoriaethau allweddol ac aelodaeth BPRhGC.*

Cytunodd BPRhGC ar ei Egwyddorion Arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac fe adolygwyd y rhain yn ddiweddar mewn sesiwn gweithdy a hwyluswyd. Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi ymroi i ddarparu gwell iechyd a lles cynaliadwy i bawb yng Ngogledd Cymru.

Golyga hyn:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol
- Mae gofal yn cael ei gyflawni mewn dulliau cydlynol o amgylch anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

**3.1** Adolygwyd, diweddarwyd a chytunwyd Cylch Gorchwyl BPRhGC gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Rôl BPRhGC yw:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed.
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd

- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, dwysau unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd i'w ddatrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn parhau i gwrdd yn fisol ar yr amser presennol, ac mae hefyd wedi cynnal gweithdai a sesiynau datblygu yn ogystal â chyfarfodydd busnes.

Mae nifer yr aelodau sy'n ofynnol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i nodi yn y Canllawiau Statudol fel Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan y BPRhGC aelodau o'r holl feysydd aelodaeth sy'n ofynnol ac mae ganddo hefyd aelodau cyfetholedig o'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru. Mae BPRhGC hefyd wedi cytuno i gynyddu nifer ei gynrychiolwyr unigol a gofalwr i ddau'r un ac mae ar hyn o bryd yn gweithio ar broses Datganiadau o Ddiddordeb.

Mae aelodaeth bresennol y BPRhGC fel y ganlyn:

| Enw | Teitl | Aelodaeth yn dod i ben |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn | Mai 2022 |
| Morwena Edwards | Cyngor Gwynedd | Parhaus |
| Y Cynghorydd Bobby Feeley | Cyngor Sir Ddinbych | Mai 2022 |
| Caroline Turner | Cyngor  Sir Ynys Môn | Parhaus |
| Y Cynghorydd Christine Jones | Cyngor Sir y Fflint | Mai 2022 |
| Clare Field | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Parhaus |
| Y Cynghorydd Liz Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Mai 2022 |
| David Worrall | Aelod Trydydd Sector | 31 Hydref 2018 |
| Debbie Shaffer | Aelod Derbynwyr Gwasanaeth | 31 Hydref 2018 |
| Jenny Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Parhaus |
| Y Cynghorydd Joan Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Mai 2022 |
| Lynda Colwell | Cynrychiolydd Trydydd Sector | 31 Hydref 2018 |
| Margaret Hanson | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Parhaus |
| Mary Wimbury | Cynrychiolydd Darparwyr Gwasanaeth | 31 Hydref 2018 |
| Morag Olsen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Parhaus |

| | | |
|---|---|---|
| Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint | Parhaus |
| Nicola Stubbins | Cyngor Sir Ddinbych | Parhaus |
| Richard Weigh | Prif Swyddog Cyllid (rhan 151) (Cyfetholedig) | Parhaus |
| Vin West | Cynrychiolydd Gofalwyr | 31 Hydref 2018 |
| Wendy Jones | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Gogledd Cymru (Cyfetholedig) | Parhaus |
| William Gareth Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd | Mai 2022 |
| Richard Debicki | Heddlu Gogledd Cymru (Cyfetholedig) | Parhaus |
| Helen MacArthur | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (Cyfetholedig) | Parhaus |
| Andrew Long | Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru Cymru (Cyfetholedig) | Parhaus |
| Teresa Owen | Bwrdd Iechyd (Cyfetholedig) | Parhaus |
| Bethan Jones Edwards | Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol | Parhaus |
| | Cadeirydd Cyfarfod Grŵp Arweinyddion Gogledd Cymru (os nad yn aelod yn barod) | Cyfnod fel Cadeirydd |

Caiff busnes y BPRhGC ei reoli gan Dîm Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 4. Gofynion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r gofynion ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u nodi yn Rhan 9 y Canllaw Statudol (Trefniadau Partneriaeth). Fodd bynnag ym mis Mawrth 2018, darparodd Llywodraeth Cymru ganllaw ychwanegol ar gyfer cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'r adroddiad hwn yn dilyn y gofynion o fewn y canllaw ychwanegol hwnnw.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae BPRhGC wedi blaenoriaethu integreiddiad gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd

Yn ychwanegol i'r uchod, mae BPRhGC wedi ymgymryd â rôl strategol arweiniol i sicrhau bod yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a'r Cynllun Ardal wedi'u cwblhau; mae wedi goruchwylio

datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl ac mae aelodau'r BPRhGC yn ymwneud a chyflwyno hyn yn lleol; mae'r BPRhGC wedi cael trosolwg strategol o grantiau rhanbarthol megis y Gronfa Gofal Integredig a Grant y Gofalwr; mae hefyd wedi cynnal arolygiaeth o'r gwaith yn gysylltiedig â'r Farchnad Ddarparwyr yng Ngogledd Cymru yn ogystal â gwaith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol; y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol; Cyllidebau Cyfun; Fforwm Gwerth Cymdeithasol; Panel Dinasyddion a DEWIS Cymru. Mae BPRhGC hefyd wedi cael cyflwyniadau ar flaenoriaethau'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Datblygodd y Bwrdd ei raglen waith flynyddol yn gynnar yn 2017/18 ac mae hyn wedi gosod sail i'r hyn sy'n cael ei adrodd ac arolygiaeth gan y Bwrdd dros y flwyddyn.

Cynhaliodd BPRhGC weithdy wedi'i hwyluso ym mis Mawrth 2018 i adolygu ei gynnydd ac roedd y gweithdy hwn hefyd yn ystyried yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cytunodd Aelodau BPRhGC ar y canlynol:

Mae gweledigaeth ac egwyddorion arweiniol presennol y bartneriaeth ranbarthol yn parhau'n briodol ac nid oes angen newid hyn nac ychwaith y nodau cyffredinol, fel y nodwyd yn 3.1 uchod, y mae partneriaid yn gweithio tuag atynt.

Cydnabyddodd y Bwrdd, fodd bynnag, bod meysydd lle nad oedd integreiddiad wedi bod yn ddigon cyflym nac ychwaith yn ddigon helaeth ond roedd o'r farn bod yr Adolygiad Seneddol yn rhoi cyfle i ddarparu newid ac i symud tuag at ardaloedd di-dor effeithiol yn llawer mwy strategol.  Er mwyn galluogi hyn, cytunwyd bod angen i'r cynlluniau strategol ar gyfer y rhanbarth dros y tair blynedd nesaf ganolbwyntio ar gefnogi ardaloedd, defnyddio'r adnoddau fydd ar gael o'r gronfa drawsnewid genedlaethol.

Mae Cadeirydd BPRhGC wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn dechrau trafodaeth ar y cyfleoedd i gydweithio a bydd hyn yn symud ymlaen i sefydlu llywodraethu effeithiol yn y dyfodol ar draws y Byrddau.

Cytunodd aelodau BPRhGC bod angen i'r Bwrdd chwarae rôl wahanol yn y dyfodol – yn canolbwyntio ar ddiffinio ac egluro'r hyn mae'n ei ddisgwyl gan ardaloedd a gwasanaethau rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru a gwneud partneriaid yn gyfrifol am gynnydd a chanlyniadau yn erbyn y disgwyliadau hyn a herio'r hyn sydd ddim yn gweithio. Mae'r Bwrdd hefyd yn awyddus i gryfhau ei rôl ddylanwadol – dylanwadu staff, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru.

Mae BPRhGC wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer gwasanaethau di-dor i ardaloedd ar draws y rhanbarth, yn unol â chyfeiriad argymhellion yr Adolygiad Seneddol.

## 5 Cyfeiriad Strategol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

*Mae'r adran hon yn nodi beth oedd amcanion allweddol y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf.*

<u>Cynllun Ardal BPRhGC</u>

Mae Cynllun Ardal BPRhGC yn gosod y blaenoriaethau ar gyfer integreiddio'r gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru, yn cynnwys gwasanaethau i bobl hŷn, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr ac iechyd meddwl. Mae'r Cynllun

Ardal yn nodi’r map llwybr ar gyfer cyflawni integreiddiad a fydd yn cael ei oruchwylio gan FPRhGC.

Mae’r Cynllun Ardal yn seiliedig ar y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed fel rhan o ddatblygiad yr asesiad poblogaeth. Cafodd ymgynghori ac ymgysylltu hefyd eu cynnwys yn rhan o’r cynlluniau sgopio a chyflenwi a baratowyd ar gyfer pob un o flaenoriaethau’r Bwrdd. Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth ar y Cynllun Ardal drafft rhwng 11 Awst ac 17 Tachwedd 2017 a hyrwyddwyd hyn drwy rwydweithiau rhanbarthol, y Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, Awdurdodau Lleol a’r Bwrdd Iechyd. Cymeradwywyd y Cynllun Ardal terfynol gan y BPRhGC Ionawr 2018 ac mae adroddiad wedi’i gyflwyno ger bron y cyfarfodydd gweithgor uwch priodol, cyfarfodydd archwilio a/neu cabinet ym mhob Awdurdod Lleol a’r Bwrdd Iechyd.

Drwy gydol datblygiad y Cynllun Ardal mae swyddogion wedi gweithio gyda swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i osgoi dyblygu ac i wneud defnydd effeithiol o’r data a chyfleoedd ymgynghori. Mae Cadeirydd BPRhGC hefyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i ddechrau trafodaeth ar y berthynas a’r dibyniaethau rhwng y BGC a BPRhGC.

Mae llawer o flaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Ardal BPRhGC a bydd y rhain yn cael eu datblygu gan y meysydd blaenoriaethu ar gyfer integreiddio:

Plant a Phobl Ifanc

- Gwella cymorth iechyd a gofal cymdeithasol i blant ag anghenion cymhleth
- Gwell cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl plant
- Pob plentyn i fod yn ddiogel ac yn iach o feichiogrwydd hyd at 2 oed
- Rhwystro gordewdra ymhlith plant
- Gwell gwasanaethau cefnogi teuluoedd

Pobl Hŷn

- Integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion cymhleth yn cynnwys dementia
- Cefnogi sefydliadau sy’n darparu gofal
- Cynyddu lefel a chyflymdra integreiddio

Anableddau Dysgu

- Llunio Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol
- Dylunio a darparu gwasanaethau integredig i bobl ag anableddau dysgu

Iechyd Meddwl

- Gweithio mewn partneriaeth i integreiddio a darparu’r Strategaeth Iechyd Meddwl

Gofalwyr

- Darparu cymorth priodol i ofalwyr a gofalwyr ifanc
- Mapio’r ddarpariaeth bresennol a chytuno ar gynnig rhanbarthol i ofalwyr.

Mae'r Cynllun Ardal hefyd yn rhestru canfyddiadau eraill o'r Asesiad Poblogaeth, mae llawer ohonynt  yn cael sylw gan bartneriaid fel rhan o'u busnes craidd neu gan bartneriaethau presennol. Mae'r cynllun yn disgrifio'n fras lle mae hyn yn digwydd ac yn rhoi dolenni er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

<u>Comisiynu Strategol</u>

Mae Rhan 9 y Ddeddf yn gofyn bod cynnydd yn cael ei wneud o ran comisiynu integredig rhanbarthol. Mae Gogledd Cymru wedi cael trefniadau comisiynu rhanbarthol ar waith rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd ers 2012.

Fel rhanbarth, gweithiom gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddatblygu, treialu a chwblhau dadansoddiad o farchnad cartref gofal. Mae hyn yn darparu gwybodaeth a dadansoddiad o'r sector cartref gofal ac mae ein datganiad o sefyllfa'r farchnad wedi datblygu o'r gwaith hwn.

Mae gennym gytundeb cyn-lleoli rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal, rhwng yr Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd a Darparwyr ac rydym newydd gwblhau tendr rhanbarthol ar gyfer darpariaeth gofal gartref, unwaith eto'n cytuno ar gontract cyffredin a manyleb ar gyfer gwasanaethau.

Mae gan yr Awdurdodau Lleol ymagwedd integredig at gytuno ar ffioedd â darparwyr ac maent wedi datblygu methodoleg ranbarthol. Nid yw'r fethodoleg yn cynhyrchu ffi ranbarthol - byddai hyn yn anodd ei gyflawni oherwydd grymoedd y farchnad, lefelau darpariaeth, ffactorau lleol megis gweithlu a fforddadwyedd.

Mae gennym ymagwedd integredig at sicrhau ansawdd rhwng yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd.  Rydym hefyd yn adolygu ein gweithdrefnau pryderon cynyddol.

<u>Cyllidebau Cyfun</u>

Ym mis Mehefin 2017 cefnogodd BPRhGC ddatblygiad Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol. Mae hwn yn gytundeb trosfwaol y mae pob partner wedi'i arwyddo dan sêl sy'n cofnodi sut y bydd partneriaid yn cydweithio ac yn nodi:

- Y prif amcanion
- Egwyddorion cydweithio
- Strwythurau llywodraethu y mae partneriaid wedi'u rhoi ar waith (adrodd i FPRhGC)
- Rolau a chyfrifoldebau'r partîon

Bydd pob cyllideb gyfun sydd wedi'i datblygu yn y Gogledd yna yn cael ei gosod o dan y cytundeb trosfwaol hwn. Mae'r ymagwedd hon hefyd yn galluogi i unrhyw gytundeb Adran 33 presennol gael ei gynnwys o fewn y cytundeb hwn. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol ar gyfer y rhanbarth ac mae'r Cytundeb Integreiddio Rhanbarthol wedi'i gefnogi gan strwythur llywodraethu/ gwleidyddol bob sefydliad partner.

Mae'r rhanbarth hefyd wedi datblygu trefniadau cyllideb gyfun ar gyfer y canlynol:

- Cronfa Gofal Integredig
- Cyllid Grant i Ofalwyr (Cyllid Pontio Gofalwyr yn flaenorol)
- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd
- Lleoliadau Cartref Gofal

Mae yna hefyd lawer o drefniadau cyllideb gyfun lleol yn datblygu ar draws y rhanbarth, er enghraifft, Ffordd Gwynedd a Gallu Cartrefi Gofal Sir y Fflint.

Mae'r rhanbarth hefyd wedi datblygu cyllideb gyfun ar gyfer cartrefi gofal, yn unol â gofynion y Ddeddf, ac mae'r gyllideb hon wedi'i datblygu yn seiliedig ar beidio rhannu risg yn unol â'r trefniadau o fewn rhanbarthau eraill.

Gweithlu Rhanbarthol

Ym mis Mawrth 2018 cefnogodd BPRhGC y Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru. Mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu mewn partneriaeth ac fe gafwyd cyfnod ymgynghori cyn cytuno ar y strategaeth derfynol. Mae rhaglen waith wedi'i datblygu ar gyfer darparu'r strategaeth ac mae partneriaid ar y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn dechrau ar ddarparu'r strategaeth uchelgeisiol a newydd hon, bydd y ddarpariaeth yn cael ei monitro gan FPRhGC.

Ffrydiau Gwaith Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae pob un o'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth yn darparu diweddariadau rheolaidd i FPRhGC ar gynnydd eu gwaith; mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i gyd-gynhyrchu fframweithiau a strategaethau gydag unigolion, gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr o fewn y ffrydiau gwaith. Mae datblygiadau'r ffrydiau gwaith yn seiliedig ar ymagwedd ranbarthol ond darpariaeth leol ac mae BPRhGC yn falch bod cyfeiriad y cynnydd yn adlewyrchu'r argymhellion o fewn yr Adolygiad Seneddol gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth leol.

Panel Dinasyddion Gogledd Cymru

Mae BPRhGC yn parhau â phanel dinasyddion a gaiff ei reoli gan Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy a'i ariannu gan y 6 Awdurdod Lleol. Mae'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn rheoli'r contract gyda Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy ar ran y partneriaid. Bydd y panel rŵan yn cynnwys pobl ifanc 16 mlwydd oed a hŷn ac mae'r panel wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y flwyddyn. Mae gan y Panel wefan a thudalen Facebook (www.llaisygogledd.wales) ac mae gwybodaeth ac ymgynghoriadau yn cael eu hychwanegu yn rheolaidd. Mae'r ymgynghoriadau diweddaraf wedi cynnwys Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a "Mesur y Mynydd". Nod ein panel yw casglu barn cymunedau am anghenion unigolion er mwyn bwydo i mewn i ddatblygiadau ar draws y rhanbarth.

Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru



Mae'r rhanbarth wedi sefydlu ei Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol ac mae BPRhGC wedi cymeradwyo ei gylch gorchwyl a'i gynllun gwaith. Oherwydd maint daearyddol y rhanbarth, mae datblygiadau bellach ar waith i sefydlu fforymau lleol ym mhob un o'r ardaloedd Awdurdod Lleol a fydd yn adrodd i'r Grŵp Llywio, ac yn gyrru datblygliad sefydliadau gwrth cymdeithasol. Aeth aelodau o'r Grŵp Llywio i weithdy diagnostig Llywodraeth Cymru ar Gomisiynu Sefydliadau Gwerth Cymdeithasol ym mis Mehefin 2018.

Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru

Sefydlwyd y Fforwm i dynnu cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau perthnasol a leolir, ac sy'n weithredol yng Ngogledd Cymru er mwyn canolbwyntio ar weithredu fframwaith strategol Mwy Na Geiriau.

Yn ystod 2017-18, roedd y Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng sefydliadau, cyrsiau iaith ac adnoddau perthnasol er enghraifft. Yn ychwanegol at hynny, rhannodd y Fforwm wybodaeth am y grantiau a'r digwyddiadau sydd ar gael i hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg.


Cafwyd cyflwyniadau gan y Fforwm ar y canlynol:

- Cyflwyniad am System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a darpariaeth system gofnodi ddwyieithog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cyflwyniad am Beilot Cymraeg Gwaith (ar gael drwy Gofal Cymdeithasol Cymru) i gefnogi'r sector Gofal Cymdeithasol, a
- Chyflwyniad gan Wasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru am yr angen am gysondeb wrth gasglu data yn ymwneud â sgiliau iaith staff a'r angen am reolwyr / staff i ystyried yr iaith fel sgil. Yn ogystal â hynny, roedd trafodaeth ar sicrhau bod anghenion sgiliau iaith yn y gweithle yn gysylltiedig â gwaith Asesiad o Anghenion poblogaeth a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo mewn Recriwtio Gofal Cymdeithasol.


Mae Cynrychiolwyr y Fforwm yn cynnwys unigolion o sefydliadau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Coleg Cambria, Prifysgol Bangor a Menter Iaith. Mae Rhanbarthau eraill yng Nghymru yn edrych i ailadrodd model y bartneriaeth sydd wedi cael ei sefydlu yma yn y Gogledd drwy weithredu gofynion MNG.

## 6. Trefniadau Partneriaeth a Llywodraethu

Mae'r trefniadau partneriaeth a llywodraethu fel y cytunwyd gan FPRhGC i'w gweld isod. Mae pob un o'r meysydd integreiddio â blaenoriaeth yn adrodd i'r BPRhGC drwy'r Grwp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Mae BPRhGC yn adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sef cyfarfod yr Uwch Swyddogion Gweithredol ac Arweinwyr / Cadeiryddion y sefydliadau sector cyhoeddus yn y rhanbarth.




Mae strwythur llywodraethu Gogledd Cymru yn dangos trefn llywodraethu rhanbarthol a sut y mae hyn yn cysylltu â strwythurau lleol, is-ranbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â meysydd y bydd BPRhGC yn derbyn adroddiadau ganddynt. Mae llawer o grwpiau technegol neu arbenigol integredig sydd hefyd yn cefnogi'r ffyrdiau gwaith yn y rhanbarth. Mae BPRhGC yn rhyngwynebu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru ac yn goruchwylio datblygiadau'r Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol a'r Panel Dinasyddion Rhanbarthol.



## 7. Partneriaethau Integredig a chyfrannu at ganlyniadau gwell

*Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r cynnydd ar amcanion strategol BPRhGC ac yn gosod y canlyniadau gwella gyflawnwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan gynnwys enghreifftiau lle bo hynny'n briodol.*

Mae BPRhGC wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol yn 2017/18:

<u>Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd</u>

Mae'r Grŵp Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc wedi ymgymryd â rôl arweiniol i integreiddio gwasanaethau ar gyfer y maes gwasanaeth hwn ar ran BPRhGC. Mae gan y grŵp rhanbarthol aelodau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, CAMHS, Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Paediatreg/Plant Cymunedol, Paediatreg Aciwt, Sector Gwirfoddol, Iechyd Meddwl Oedolion, Iechyd Cyhoeddus a'r Heddlu.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r grŵp wedi gweithio i nodi a chytuno ar feysydd blaenoriaeth y bartneriaeth.

Bydd y grŵp trawsnewid yn goruchwylio datblygiad ac integreiddiad y gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd, gyda'r nod o wella canlyniadau a mynediad at wasanaethau, yn unol â'r flaenoriaeth yn y Ddeddf a sefyllfa gytunedig BPRhGC.

Mae aelodau'r grŵp trawsnewid wedi gweithio i archwilio diffiniad Plant gydag Anghenion Cymhleth oherwydd Anabledd neu Afiechyd ac wedi adolygu'r angen yng Ngogledd Cymru. Mae o ganlyniad wedi canfod y meysydd blaenoriaeth canlynol sydd angen mynd i'r afael â hwy er lles plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru.

- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd
- Atal a lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) – cyflenwi gwasanaethau ACE gwybodus
- Gwella canlyniadau yn 1000 diwrnod cyntaf bywyd
- Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwydnwch plant a theuluoedd
- Hyrwyddo pwysau iach ac atal gordewdra ymhlith plant
- Adolygu ymyrraeth argyfwng ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag argyfwng iechyd meddwl

Mae pob ffrwd waith yn ymgymryd â dull partneriaeth i ddatblygu a gyrru cydlyniant gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd, - gan sicrhau bod partneriaid yn gweithio'n effeithiol i ddarparu ar gyfer ein plant a phobl ifanc.
Bydd canlyniadau yn cynnwys:

- Sicrhau bod llais plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth wraidd darpariaeth gwasanaeth,
- Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn/ person ifanc,
- Cyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd,
- Cynaliadwyedd a gwerth da
- Darparu gymaint o ofal/ gwasanaethau mor agos i gartref ac sy'n briodol.

Er i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar y blaenoriaethau, mae'n hanfodol hefyd bod ymgysylltiad â phobl ifanc yn parhau yng ngham nesaf y datblygiad a hefyd yn ystod y ddarpariaeth. Byddwn yn ymgymryd â dull yn seiliedig ar hawliau ac yn cyd-ddylunio a chynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig iddynt. Mae hwn yn gam mawr ymlaen i Ogledd Cymru a dyma'r tro cyntaf y bydd blaenoriaethau amlasiantaeth cytunedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn y rhanbarth.

Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia

Un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dilyn cwblhau Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru oedd "gwasanaethau pobl hŷn." Roedd hefyd yn faes a nodwyd o fewn y Ddeddf mewn perthynas â'r angen i ddatblygu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth.

O ganlyniad i'r uchod, comisiynwyd Ffrwd Waith Pobl Hŷn. Yr hyn oedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf oedd bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn, a teg yw dweud bod llawer iawn o weithgarwch ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â gwasanaethau pobl hŷn. O ystyried cymaint o weithgarwch y mae gwasanaethau pobl hŷn yn gyfrifol amdano, mae yn aml yn ddimensiwn allweddol i sawl darn o waith ac agendâu trawsnewid ar draws asiantaethau partner.

Roedd arweinwyr y ffrwd waith yn ymwybodol o hyn ac yn awyddus i ganfod pa waith ychwanegol, os o gwbl, oedd angen ei gyflawni ar lefel ranbarthol a fyddai'n ychwanegu gwerth at y gwaith a oedd eisoes yn cael ei gyflawni. Roeddem yn awyddus iawn i osgoi dyblu ymdrech ac yn ymwybodol iawn y gallai diofalwch achosi i ni gymhlethu prosiectau presennol.

Felly, cynhaliwyd gweithdy traws-bartner ym mis Tachwedd 2017, gyda'r bwriad o nodi'r camau gweithredu allweddol a oedd eu hangen i ychwangeu gwerth i welliannau presennol. Y ddau gam gweithredu allweddol a nodwyd, a fyddai o fudd i'r rhanbarth o ran gwella gwasanaethau i bobl hŷn, oedd:-

- Canfod a rhannu arfer orau gwasanaethau integredig i bobl hŷn, gyda'r bwriad o sicrhau bod perfformiad yn y rhanbarth yn gwella
- Canfod ffyrdd o ddatblygu diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn ein sefydliadau, a sicrhau bod y boblogaeth/ y cyhoedd ehangach yng Ngogledd Cymru yn gwybod sut i chwarae eu rolau.

Roedd Grŵp Trawsnewid Pobl Hŷn eisoes ar waith gan BIPBC ac fe benderfynwyd datblygu hwn i grŵp a fyddai'n ymgymryd â'r rolau uchod. Yn ogystal â hyn, mae gan bob Awdurdod Lleol 'Gynllun Heneiddio'n Dda' ac mae gan y Bwrdd Iechyd 'Fframwaith ar gyfer gwella iechyd, gofal iechyd a lles unigolion dros 50 oed ac yn ddiweddarach yn eu bywydau' drafft. Cynigir adolygiad o'r fframweithiau / cynlluniau hyn gyda'r bwriad o greu dogfen trosfwaol a fydd yn gosod ein "cynnig" neu egwyddorion ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru.

Pobl gydag Anableddau Dysgu

Mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategaeth integredig ar gyfer anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys:

- Cynnal digwyddiad creu gweledigaeth gychwynnol a choladu canfyddiadau gwaith rhanbarthol a wnaed hyd yma gan gynnwys gweledigaeth a gwerthoedd a rennir.
- Cytuno ar y strwythur llywodraethu ar gyfer y gwaith, adrodd i FPRhGC .
- Data sylfaenol wedi'i gasglu gan adeiladu ar ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth.
- Cytuno ar ymagwedd at ddatblygu'r strategaeth gyda'r Grŵp Cyfranogiad Rhanbarthol Anableddau Dysgu. Gweithio gyda phanel y Dinasyddion a'r grŵp cyfranogiad i ymgysylltu ag unigolion sydd ag anableddau dysgu wrth ymgynghori ar y strategaeth.
- Sefydlu fforwm darparwr rhanbarthol a chynnal ymgynghoriad cychwynnol ar y strategaeth.
- Cytuno ar gynllun cyfathrebu a chynhyrchu newyddlen a hysbysebu'r ymgynghoriad a fydd yn rhedeg o fis Ebrill 2018 i fis Gorffennaf 2018.
- Mae dogfen yn crynhoi'r gwaith hyd yma yn cael ei datblygu i rannu'r weledigaeth a'r gwerthoedd, canfyddiadau cyfranogiad a data sylfaen.

<u>Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc</u>

Mae cwmpas y ffrwd waith yn cynnwys:

- Deall ein sefyllfa bresennol yng Ngogledd Cymru a beth yw llwyddiant
- Deall beth yw ein blaenoriaethau o ran cyflawni llwyddiant
- Bod yn glir o ran cyllid a chynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
- Ychwanegu gwerth drwy weithio gyda'n gilydd yn rhanbarthol yn ogystal â chydweithredol.

Mae'r cynnydd canlynol wedi'i wneud:

- Gwneud defnydd o negeseuon yn yr asesiad poblogaeth
- Casglu tystiolaeth o waith uniongyrchol gyda gofalwyr gan sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, iechyd a'r trydydd sector.
- Casglu straeon ac astudiaethau achos gofalwyr
- Mapio darpariaeth gwasanaeth a buddsoddiad
- Cyd-gynhyrchu cynnig rhanbarthol ar gyfer gofalwyr drwy gynnal cyfres o weithdai gyda gofalwyr, darparwyr, comisiynwyr a rheolwyr.

<u>Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd (GCID)</u>

Mae adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth y GCID ar draws y rhanbarth wedi'i gwblhau a oedd yn cynnwys archwilio'r arfer orau a'r gofynion deddfwriaethol cyfredol yn erbyn y trefniadau lleol ar waith. Mae'r GCID yn cael eu darparu ar sail is-ranbarthol ar hyn o bryd, er mwyn diwallu anghenion a galw defnyddwyr gwasanaeth lleol orau.

Mae pob trefniant is-ranbarthol yn darparu GCID yn cynnwys cyfuno trefniadau rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Partneriaid Awdurdod Lleol sy'n gysylltiedig.

Mae trefniadau adrodd wedi'u diweddaru ar ddarpariaeth y GCID wedi'u llunio. Mae cytundeb partneriaeth wedi'i ddiweddaru wedi'i baratoi i ddarparu fframwaith rhanbarthol i danategu'r trefniadau darparu GCID amrywiol sydd ar waith ar draws y rhanbarth.

Cronfa Gofal Integredig (ICF)

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn y Gogledd wedi'i gwneud yn amodol ar drefniad cyllideb gyfun gyda Chytundeb Partneriaeth y mae pob partner wedi'i arwyddo dan sêl. Oherwydd natur weithredol y GGI, mae BPRhGC wedi dirprwyo rheolaeth weithredol y gronfa i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru sydd i adrodd yn rheolaidd i FPRhGC. Yn 2017/18, ariannodd y GGI ystod eang o raglenni, gan gynnwys:

- Cefnogaeth ac integreiddiad cymunedol, er enghraifft, Datblygiadau Timau Adnoddau Cymunedol a darpariaeth gwasanaethau Camu i Fyny/Lawr
- Modelau eraill o wasanaeth, er enghraifft, gwella mynediad at wasanaethau Gofal Cartref ac ymestyn oriau agor unedau mân anafiadau
- Cefnogaeth i Gartrefi Gofal
- Cefnogaeth Lles, er enghraifft, llywyr cymunedol a chynllun atal codymau
- Un Pwynt Mynediad

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth




Mae BPRhGC yn parhau i gefnogi a hyrwyddo DEWIS Cymru ar draws y partneriaethau. Mae cryn dipyn o waith yn digwydd yn lleol i hyrwyddo Cyfeiriadur Gwasanaethau a Thudalennau Gwybodaeth DEWIS ac mae DEWIS hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y timau Un Pwynt Mynediad. Fel rhanbarth, mae perthynas waith agos â'r tîm DEWIS cenedlaethol ac mae cyfarfodydd rhwydweithio DEWIS rheolaidd yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth, ynghyd a rhaglen parhaus i hyrwyddo DEWIS . Yn ogystal â DEWIS, mae partneriaid yn darparu'r gwasanaethau hyn drwy eu gwasanaethau o ddydd i ddydd ac mae ffocws llawn a phrysurdeb i ddarparu'r "Hyn sy'n Bwysig" i ddinasyddion ar hyd y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## 8. Darpariaeth Statudol

*Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau statudol a ddefnyddir i ategu'r partneriaethau rhanbarthol, e.e. cyllidebau cyfun o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015*

Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 - yn enwedig adrannau 166 a 167 a'r rheoliadau cysylltiedig (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Mae'r Partneriaid wedi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol - "Cytundeb Integreiddio" - sy'n ymgorffori eu hymrwymiad i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau allweddol a ddynodir i fanteisio ar wasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Ymhlith pwerau cyfreithiol eraill y dibynnir arnynt i gefnogi partneriaethau rhanbarthol a gytunwyd, mae:

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 - yn enwedig adrannau 1, 2, 10, 33 a 38, 82.

Pwerau A9 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio ag awdurdodau lleol eraill.

Deddf Llywodraeth Leol 1972 - yn benodol a2 sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth y mae'n ei farnu sy'n debygol o gyflawni unrhyw un neu fwy o'r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal ac adran 113 sy'n galluogi un awdurdod lleol i roi gwasanaeth ei staff i awdurdod arall neu awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd.

Mae A111 Deddf Llywodraeth Leol 1982 yn darparu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n cael ei ystyried i hwyluso i gyflawni eu swyddogaethau neu sy'n ddargludol neu'n gysylltiedig â hwy.

## 9. Blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y Dyfodol

*Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb terfynol o'r cynnydd y mae'r BPRhGC yn ystyried ei fod wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn ystyried y blaenoriaethau y bydd yn canolbwyntio arnynt yn y flwyddyn ganlynol a thu hwnt.*

Mae'r BPRhGC wedi gwneud cynnydd rhagorol yn 2017/18 ond mae'n cydnabod bod angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drawsnewid gyda chyflymder. Mae'r NWRPB wedi croesawu'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan fod hwn yn nodi cyfeiriad teithio strategol. Mae'r BPRhGC wedi nodi y bydd angen iddo:

- gytuno ar egwyddorion dylunio cyffredin ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd a lles di-dor ar draws Gogledd Cymru sy'n cael eu cyfarwyddo gan fodelau cenedlaethol
- ymgymryd ag adolygiad o bob ardal ar draws y rhanbarth a mesur eu cynnydd yn erbyn yr egwyddorion a'r blaenoriaethau ar gyfer newid
- ymgymryd ag adolygiad cyfochrog o'r trefniadau llywodraethu a chefnogi ym mhob ardal i sicrhau bod gan leoliadau'r gallu o ran arweinyddiaeth i symud ymlaen
- datblygu cynllun cyflawni ar gyfer pob ardal, wedi'i ddatblygu gyda'r cyhoedd a'i gytuno gan bartneriaid lleol a'i lofnodi gan yr BPRhGC
- neilltuo tîm trawsnewid o dan y BPRhGC i gefnogi gweithredu'r newidiadau ym mhob ardal
- Cyflwyno rhaglen reolaidd ar gyfer adolygu a herio i ardaloedd, ac i bob partner, a fydd yn cael ei wneud gan y BPRhGC.

Bydd y BPRhGC hefyd yn cadw trosolwg ar integreiddio gwasanaethau a ddechreuwyd ar gyfer meysydd blaenoriaeth y BPRhGC a bydd y rhain yn cyd-fynd â datblygiadau o dan drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel y bo'n briodol. Bydd yr BPRhGC hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar y gwaith sy'n cael ei wneud trwy ei grwpiau technegol ac arbenigol, gan gynnwys cyllidebau cyfun, comisiynu strategol a chyflwyno Strategaeth Gweithlu Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru. Bydd BPRhGC yn parhau i weithio gyda Byrddau eraill ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau'r cyfleoedd a'r gallu mwyaf posibl.

This page is intentionally left blank

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**Templed Adroddiad Craffu**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Partneriaethau ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 24 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol i'r pwyllgor craffu |
| **Cadeirydd Craffu:** | Y Cynghorydd Gwilym Jones |
| **Deilydd Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae tîm cefnogi partneriaethau'r ddwy sir wedi'i leoli o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd, arweinydd y gwasanaeth Diogelwch Cymunedol yn Ynys Môn yw Ned Michael, ac Annwen Morgan yw cadeirydd y Bartneriaeth. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Catherine E Roberts- Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>01286 679047<br>Catherineeirlysroberts@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

**1 - Argymhelliad**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi p'un a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol ai peidio.

**2 - Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.
**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.**

**3 - Egwyddorion fel canllaw ar gyfer sgriwtini**

**Bydd y gyfres a ganlyn o egwyddorion arweiniol yn gymorth i'r Aelodau wrth graffu'r pwnc hwn:**

**3.1 Y cwsmer/dinesydd** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt bobl leol]

**3.2 Gwerth** [A yw cynlluniau a chynigion yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol? Hefyd, edrych ar ofynion ehangach buddion cymunedol]

**3.3 Risg** [Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gwytnwch a thrawsffurfio gwasanaeth. Mae'n ymwneud â throsglwyddo o wasanaeth traddodiadol i un sydd wedi'i drawsffurfio ac yn ymwneud â gwytnwch y gwasanaeth sydd wedi'i drawsffurfio pan ddaw i rym]

**3.4 Canolbwyntio ar y system (gan gynnwys datblygu'r sefydliad)** [Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid systemau mewn grym i sicrhau eu bod yn medru gweithredu'r trawsnewidiad yn ddidrafferth, yn effeithlon a heb gael effaith negyddol ar ddarparu'r gwasanaeth]

**3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:**

- **hirdymor**
- **atal**
- **integreiddio**
- **cydweithio**
- **cynnwys**

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Craffu Allweddol

- A yw'r pwyllgor yn cytuno gyda blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asedau anghenion rhanbarthol?
- A yw'r pwyllgor yn cytuno gyda'r prif gerrig milltir sydd wedi'u datblygu i ddarparu'r gwasanaeth yn lleol yn y cyfnod i ddod?
- A yw'r pwyllgor yn ystyried fod y cynllun gweithredu yn ddigon gwydn, i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth?
- A oes gan y pwyllgor unrhyw ofynion ar gyfer gwybodaeth ychwanegol benodol, i gyfrannu at adroddiadau yn y dyfodol?

## 5 - Y Cefndir/ Cyd-destun

**CEFNDIR -**

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006 i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â -

- Trosedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn a Gwynedd ers 1998. Fodd bynnag, mae wedi gweithredu fel Partneriaeth ddwy-sir dros y pum mlynedd a hanner diwethaf.

Mae'r cynrychiolaeth yr Aelodaeth Etholedig , sef Llinos Medi Huws fel d'eilydd portffolio yn yr achlysur yma, yn hynod bwysig er mwyn sicrhau ymrwymiad y Cyngor i'r gwaith fel un aelod cyfrifol o dan y ddeddf. Mae Anwen Morgan, fel y Prif Swyddog gyda chyfrifoldeb, yn cadeirio'r Bartneriaeth ers dwy flynedd (ar y cyd gyda swyddog o Wynedd)

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU -**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Atodir adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2017/18, cynllun 2018/19 (atodiadau 1,2).

Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a chynllun y Bwrdd Cymunedau Diogel. Maent yn cynnwys -

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

**Y PRIF NEGESEUON SY'N DEILLIO O WEITHGARWCH 2017/18 -**

Atodir adroddiad diwedd blwyddyn y Bartneriaeth. Mae'r adroddiad yn dangos y sefyllfa mewn perthynas â'r blaenoriaethau uchod, sef –

- Yn 2017/18, cynyddodd **troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ar Ynys Môn o 24%.** Ar ôl dadansoddi hyn gwelir fod tystiolaeth mai cynnydd mewn effeithiolrwydd adrodd am droseddau yn hytrach na chynnydd mewn troseddu sydd yma; mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith arbennig ar nifer y troseddau o Drais a Throseddau Rhywiol a gofnodwyd. Adlewyrcha'r tueddiadau cenedlaethol gynnydd cyffelyb mewn lefelau trosedd a gofnodwyd gyda gwell uniondeb data a chofnodi effeithlon o droseddau yn cael ei bwysleisio'n genedlaethol. Mae Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd o gymharu â'i grwpiau mwyaf tebyg (GMT) a rhagwelir y bydd hyn yn parhau'n sefydlog.

- Gwelwyd cynnydd pellach o 18% yn ystod y flwyddyn 2018/19, hyd yma. Mae proses newydd i gofnodi stelcian ac aflonyddu wedi cyfrannu at gynnydd mewn trosedd sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ar draws ardal yr heddlu.

- Profodd Ynys Môn ostyngiad o 10% mewn **Troseddu Meddiangar**, gan gynnwys bwrgleriaeth preswyl, yn 2018/19 o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. O gymharu gyda'r MSG, mae troseddu meddiangar ar Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd.

Mae dwyn mewn digwyddiadau tymhorol, fel gwyliau cerddoriaeth, wedi effeithio ar lefelau y troseddau a gofnodwyd yn y sir.

- Mae nifer y **dioddefwyr trosedd sydd wedi dioddef fwy nag unwaith** (3 gwaith neu fwy mewn 12 mis) yn parhau i gynyddu ar Ynys Môn fel y gwna ar draws gogledd Cymru i gyd. Mae dros 70% o ddioddefwyr sydd wedi dioddef fwy nag unwaith yn ddioddefwyr trais; fel mae'r newidiadau yn y prosesau cofnodi wedi cael effaith sylweddol ar lefelau troseddau treisgar mae hyn wedi golygu adnabod mwy o ddioddefwyr sydd wedi dioddef fwy nag unwaith.

- Mae'r **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** gaiff ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru yn arbennig o dymhorol gyda nifer sylweddol uwch o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd yn ystod misoedd yr haf o'i gymharu â'r gaeaf. Mae'r lefelau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gaiff eu hadrodd yn is yn 2018/19 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae’r anhrefn ieuenctid sy'n parhau yng Nghaergybi yn cael ei reoli drwy grŵp gweithredol ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Mae **Troseddau Casineb** ar Ynys Môn wedi cynyddu'n sylweddol yn y misoedd diwethaf a throseddau a achosir gan hiliaeth yw'r math mwyaf cyffredin. Nid yw’n ymddangos fod unrhyw batrwm i'r troseddu ac nid oes unrhyw ddioddefwyr a effeithiwyd fwy nag unwaith wedi eu hadnabod; er hynny, cafwyd crynodiad o adroddiadau yn nhref Caergybi.

- Gyda ffocws cenedlaethol ar uniondeb cofnodi droseddau, mae’r newidiadau wrth gofnodi troseddau yn seiliedig ar ddioddefwyr wedi cael effaith arbennig ar nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â'r drais yn y cartref. O ganlyniad i hyn, mae adroddiadau am **Droseddau Domestig a dioddefwyr Cam-drin domestig aml** a nodwyd yn Ynys Môn yn parhau i gynyddu.

- Parhaodd lefelau **Trais Rhywiol Risg Uchel** a gofnodwyd i fod yn gymharol sefydlog, er bod rhai pigau mewn trosedd oedd yn gysylltiedig ag adrodd hanesyddol. O gymharu gyda'r GMT, mae troseddu rhywiol ar Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd.

- Mae troseddwyr aml sy'n oedolion yn unigolion 18 mlwydd oed a throsodd sydd wedi eu cyhuddo neu eu rhybuddio am dair trosedd neu fwy mewn 12 mis**.** Arhosodd **aildroseddu ymysg oedolion** Ynys Môn yn sefydlog am nifer o fisoedd**.** Mae **aildroseddu gan ieuenctid** hefyd yn parhau heb fawr ddim newid.

**PRIF LWYDDIANNAU 2017/18 -**

- O'r 34 gweithred yng nghynllun 2017/18, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 33 yn wyrdd (cyflawnwyd), ac un yn ambr (gwaith wedi'i wneud ond heb ei gwblhau).
- Roedd y weithred ambr yn ymwneud â chwblhau Adroddiad Lladdiad Domestig Gwynedd (ALlD). Mae’r weithred hon wedi cael ei hadolygu yn y cynllun presennol (ALlD newydd) oherwydd prin iawn y gellir cwblhau ALlD o fewn cyfnod 12 mis.

- Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi adolygu'r mesurau perfformiad y mae'n ei ddefnyddio gyda'r cynllun, credwn y bydd y mesurau newydd yn rhoi darlun cywirach a manylach.
- Mae'r bartneriaeth wedi gweld newid yn y ffordd yr ymdrinnir ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'r Heddlu wedi bod yn arwain ar grwpiau amlasiantaethol newydd, er mwyn cynnig mwy o ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cynnwys grŵp sy'n cyfarfod pob wythnos, yn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â thai, yn y sector statudol a'r trydydd sector, yr heddlu a phartneriaid eraill.
- Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus i godi ymwybyddiaeth am drais domestig ymysg y cyhoedd yn Ysbyty Gwynedd ym mis Tachwedd - i gyd-fynd â'r Ymgyrch Rhuban Gwyn Cenedlaethol
- Cynhaliwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am drosedd, camddefnyddio sylweddau, cam-drin rhywiol a chadw'n saff i fyfyrwyr Bangor yn ystod Wythnos y Glas.
- Gwariodd y Bartneriaeth y grantiau yn llawn yn 2017/18 ac rydym yn rhagweld y bydd yr un peth yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- O ran y sefyllfa sy'n ymwneud ag adolygiadau Lladdiad Domestig, mae'r bartneriaeth ddwy-sir ar hyn o bryd yn arwain ar ddau (y ddau yng Ngwynedd) ac mae un wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar i banel ansawdd y Swyddfa Gartref.
- Mae panel sy'n weithredol yn Ynys Môn, sef y  - VARM (Vulnerable and Risk Management Meeting), wedi cael ei werthuso yn ddiweddar. Mae'r grŵp, sydd gyda chynrychiolaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu'n cydweithio i fodloni anghenion unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl( posib) ac, sy'n achosi galw uchel am wasanaethau. Rydym bellach yn gweithio ar beilot o'r grŵp mewn rhan o Wynedd.
- Parhau i ddatblygu mae gofynion deddf newydd Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (TyeMCDTR). O ran y gofynion statudol newydd, eisoes rydym wedi -
    - Penodi Ymgynghorydd rhanbarthol newydd
    - Sefydlu Bwrdd rhanbarthol i oruchwylio datblygiad proses strategaeth a chomisiynu ranbarthol newydd
    - Dechrau'r broses o aildrefnu'r tîm cefnogol ar gyfer y rhaglen hon. Bydd y tîm i'r dyfodol yn adnodd rhanbarthol, yn wahanol i'r cydlynwyr lleol sydd gennym ar hyn o bryd.
    - Datblygu strategaeth TyeMCDTR ranbarthol, sydd wedi cael ei derbyn gan Llywodraeth Cymru.
- Un o brif ofynion Deddf TyeMCDTR Cymru yw cyflwyno fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Roedd hwn yn gofyn i holl staff Awdurdodau Lleol dderbyn hyfforddiant ar lefelau penodol ar Gam-drin Domestig. Ynys Môn yw un o'r Awdurdodau Lleol sy'n perfformio orau ar y datblygiad hwn, gyda 76% o staff Môn wedi cwblhau Grŵp 1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol
- Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi symud i adnabod pencampwyr arfaethedig ac ymgeiswyr sy'n gymwys i gyflawni Grwpiau 2 a 3 (yn ôl eu trefn) y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol
- Mae'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau dwy-sirol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cael ei sefydlu yn y cyfnod hwn, mae'r tîm o 5 bron iawn yn ei le - mae un swydd ar ôl heb ei llenwi, fodd bynnag, maen nhw'n weithredol, ac yn adeiladu ar rwydweithiau a chydweithio ar draws y ddwy Sir. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth gadw arian gan grant rhanbarthol ,

TyeMCDTR i gomisiynu'r rhaglen Tadau Gofalgar am gyfnod deuddeg mis arall. Cwrs gwirfoddol, sy'n ymdrechu i wella agweddau ac ymddygiadau tadau anodd.

- Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y bartneriaeth yn ceisio cynnal proses ymgynghori gyda'r cyhoedd, i holi am eu barn ar faterion trosedd ac anrhefn, ac yn bwysicach i weld sut mae ein dinasyddion yn teimlo yn ein cymunedau. Er bod nifer yr ymatebion o Ynys Môn yn isel - roedd 86% yn teimlo'n ddiogel neu'n weddol ddiogel yn ystod y dydd, a 69% yn y nos. Y prif bryder i breswylwyr oedd diffyg Heddlu ar y strydoedd, ac yn ail oedd materion cyffuriau ac alcohol yn y gymuned.
- Her sylweddol newydd yng ngogledd Cymru, nid yn annhebyg i sawl ardal arall bellach, yw'r agenda Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), mae yna fygythiad sylweddol i ogledd Cymru gan gangiau o'r fath sy'n dod o ardaloedd Manceinion a Merswy ac yn sefydlu gweithgarwch gwerthu cyffuriau yn yr ardal. Mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth wedi bod yn y misoedd diwethaf, a sefydlwyd grŵp Gangiau Trosedd Cyfundrefnol Dwy-sirol, sy'n cael ei arwain gan yr Heddlu.
- Mae'r 4 Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig a oedd yn bodoli yn Ynys Môn bellach wedi cael eu hystyried yn gyfleoedd priodol i newid yn Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Mae'r gorchmynion hyn yn eu lle i gynorthwyo'r Heddlu i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo buddsoddiad cyfalaf i wella adeilad Craig Hyfryd yng Nghaergybi, lle mae'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau wedi'i lleoli. Rydym ar hyn o bryd yn aros i gael cadarnhad y Bwrdd Iechyd cyn bwrw ymlaen â'r datblygiadau.
- Mae gweithiwr teulu newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Wasanaethau Plant Ynys Môn a'r grant camddefnyddio sylweddau trwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal (Bwrdd rhanbarthol sydd â throsolwg ar gomisiynu a chynllunio grant camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru)

**PRIF GERRIG MILLTIR 2018/19/20 -**

- Yn anffodus, mae'r bartneriaeth yn cynnal dau Adolygiad Lladdiad Domestig ar hyn o bryd, yn sgil dwy farwolaeth yng Ngwynedd, mae'r un a ddigwyddodd ym mis Gorffennaf 2016 wedi cael ei gyflwyno i'r Swyddfa Gartref yn ddiweddar. Digwyddodd y llall ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n parhau i fod yn y cam critigol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd statudol i gynnal yr adolygiad hwn. Bydd y gweithgarwch hwn yn gofyn am lefel o ymrwymiad ac adnoddau cefnogi eto eleni.
- Yn ystod y cyfnod hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad pellach i ddiogelwch cymunedol ar sail Cymru gyfan. Mae'r prif ganfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda phartneriaid yn lleol. Fodd bynnag rydym yn parhau i aros am gynllun manwl o strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn yng Nghymru. Y nod yw cael glasbrint ar gyfer materion cyfiawnder yng Nghymru
- Parhau i weithio ar drawsnewid agenda TyeMCDTR ar lefel ranbarthol.
- Defnyddio'r Grŵp Llywio MARAC lleol (cynhadledd asesu risg amlasiantaethol – sy'n edrych ar achosion cam-drin domestig) fel modd o fwydo i'r broses adolygu MARAC Rhanbarthol. Sicrhau bod gwersi o'r ALlD, os ydynt yn berthnasol, hefyd yn cael eu bwydo i mewn i'r adolygiad hwnnw.

- Gweithredu'r cynllun sydd ynghlwm. Mae rhai o’r prif ddatblygiadau'n cynnwys -
    - Hwyluso mwy o ymwybyddiaeth o sgamiau rhwng gwasanaeth gofal Cymdeithasol Oedolion Ynys Môn a'r gwasanaeth safonau masnach.
    - Gweithio gyda'r Heddlu i adnabod ffyrdd o dystiolaethu'r angen i barhau â'r GGMC (wedi'i gosod gan yr ALI)
    - Asesu effeithiolrwydd ein mesur deilliant newydd.
    - Sicrhau bod y MARAC (Cynhadledd asesu risg amlasiantaethol - sy'n ymdrin â dioddefwyr cam-drin domestig) lleol yn rhan o hyn ac yn cyfrannu at adolygiad MARAC Gogledd Cymru, sy'n cael ei arwain gan yr Heddlu.

**6 - Asesiad effaith Cydraddoldeb**

Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir.

**7 - Goblygiadau Ariannol**

Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol.

**8 - Atodiadau:**

1. Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2016/17
2. Cynllun Gweithredu 2017/18
3 Canllaw cyflym

**9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach):**

Dim

Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â chynllun y CH&T a blaenoriaethau BCD GC yw:

**1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. 2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal. 3. Lleihau aildroseddu**

| 1 | **Ffocws**: **Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (Troseddau meddiangar yn unig)**<br><br>**Mesur**: 1 Lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr –troseddau meddiangar<br>2 Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro – troseddau meddiangar | | | C – Angen gweithred ar unwaith<br>M – Gweithred neu brosiectau ar y trywydd iawn, ond heb ei gwblhau eto. Adolygu ym mhob cyfarfod PDC<br>G – Gweithredoedd neu brosiectau wedi cwblhau<br>Diweddariad gan berson a enwebwyd heb ei dderbyn | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| | Gwasanaethau Safonau Masnach yn y ddau Awdurdod Lleol i barhau i ystyried cyfleoedd am waith sy'n gysylltiedig â throseddau stepen drws a galwadau diwahoddiad a 'sgams', yn arbennig mewn perthynas â phobl bregus. Adnabod cyfleoedd i gydweithio gydag asiantaethau partner eraill. | Diwedd y flwyddyn ariannol | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Heddlu | **Gwynedd**<br>• Ychwaneg o unedau arbed galwadau di-wahodd wedi'i darparu i'r henoed a phobl fregus.<br>• Mae Gwynedd yn parhau i dderbyn atgyfeiriadau blaenoriaeth gan y Tîm Sgamiau NTS, ac yn cysylltu gyda dioddefwyr sgâm i gynnig cymorth, a hyrwyddo menter Tîm Sgamiau Safonau Masnach Genedlaethol (NTS), ble mae pobl sy'n byw gyda dementia yn derbyn uned arbed galwadau di-wahodd am ddim.<br>• Mae Safonau Masnach Gwynedd wedi dod yn rhan o gyfeillion dementia fel rhan o ymgyrch grŵp Safonau Masnach Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o hyfforddiant i weithwyr Gwarchod y Cyhoedd. | G |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Ynys Môn**<br>Hyfforddiant cyfeillion dementia wedi gyflwyno ar y cyd gyda aelod cymdeithas Alzheimer yn Siambr y Cyngor 21/11/17. Gwahoddiad wedi ymestyn i bob aelod o staff, aelodau etholedig ac aelodau cynllun prynu gyda hyder busnesau lleol. | G |
| · Cynnal cyfarfod rhwng yr Adran Safonau Masnach a'r Heddlu i adnabod a oes angen gwella'r modd y rhennir gwybodaeth, a chynnwys y posibilrwydd o sefydlu tasglu i'r perwyl hwn. Ystyried a oes angen grŵp newydd neu a ddylid cynnwys hyn o fewn y Tasglu YGG presennol. (Cynnwys astudiaethau o achosion o dwyll yn erbyn pobl hŷn) | Diwedd y flwyddyn ariannol | Yr Adran Diogelwch Cymunedol i drefnu cyfarfodydd | Trafodaethau wedi cynnal a cytunwyd y dylai Adrannau Safonau Masnach y ddau Gyngor cael ei gwahodd i'r Grŵp Troseddau Cyfundrefnol rhanbarthol. | G |
| · Adolygu'r gwybodaeth leol sydd ar gael i'r cyhoedd am sgams ac ati, yn enwedig gwybodaeth sydd ar gael i bobl hŷn. Os canfyddir nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael, chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwybodaeth briodol yn lleol. | Medi | Alun Roberts | Canfyddid o'r adolygiad, fod yna eisoes wybodaeth ddigonol o ffynonellau eraill a nad oedd dymuniad creu llawlyfr newydd. | G |
| Y Gwasanaeth Safonau Masnach i weithio gyda'r heddlu i gyflwyno Parth Rheoli Galw heb Wahoddiad yn ôl yr angen | Diwedd y flwyddyn ariannol | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Ian Roberts | Mae'r nifer o adroddiadau ar ddigwyddiadau, yn annigonol i gyfiawnhau Parth Rheoli Galw heb Wahoddiad ym Mhentraeth a Llangefni. Cynhelir ymgynghoriad, caledu targed a rhoddwyd cyngor i'r preswylwyr. Dim galwadau heb wahoddiad wedi derbyn yn Amlwch (hyd at 31/01/18) Parhau i fonitro. | G |
| Diogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos y Glas – defnyddio dull amlasiantaeth o ledaenu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn. | Medi | Alun Roberts<br>Helen O'Riley | Adnodau wedi amlygu a darparu. Prosiect wedi cwblhau. | G |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnal dadansoddiad pellach o fyrgleriaeth domestig er mwyn canfod a yw pobl fregus yn cael eu targedu h.y. yn ystod cyfnodau yn yr ysbyty ac ati.<br><br>Bydd y Bartneriaeth yn cynnal proses ymgynghori gan ddefnyddio holiadur, gyda phanel dinasyddion yn ardaloedd y ddau Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn cynnig gwybodaeth i ni am sut y mae'r cyhoedd yn teimlo am ein meysydd blaenoriaeth, a pha mor ddiogel y maent yn teimlo o fewn eu cymunedau. | Medi<br><br>Ionawr | Dadansoddwr y Bartneriaeth<br><br>Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | Dadansoddiad wedi derbyn, dim tystiolaeth i awgrymu fod dioddefwyr bregus yn cael eu targedu ond yn hytrach yr eiddo gwag<br><br>Ymgynghoriad wedi cwblhau. Comisiynwyd dadansoddiad pellach yn fewnol, i lywio a llunio ein blaenoriaethau ar gyfer y cynllun lleol newydd 2018-19. | G<br><br>G |
| Tudalen 50 | **Prosiectau comisiynwyd**<br>· Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br>· Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog Cymorth Gyrfaoedd Cymru<br>· Swyddog cymorth fel y bo’r angen (Tai a llety) Tai Gogledd Cymru<br>· Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol | | | **Adroddiad eithriadau:**<br>· Tanwariant wedi adnabod oddi fewn prosiect gwella mynediad i lety, a bydd yn cael ei defnyddio i greu pecynnau cymorth (i symud ymlaen) ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth. Mae bid ychwanegol ar gyfer pecynnau ymolchi wedi bod yn llwyddiannus yn y chwarter olaf, a fydd yn adnodd ychwanegol i’r pecynnau cymorth. Prosiectau wedi cyflawni gwariant llawn. | |

| 2 | **Ffocws: Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)**<br><br>**Mesurau: 1** Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| Tudalen 51 | Creu tasglu i edrych ar brosesau / cyfarfodydd cyfredol YGG. | Mai | Heddlu | Partneriaeth Gweithredu Cymunedol (CAP) i aros fel ag y mae. Materion iechyd meddwl/pobl bregus i'w drafod pob pedwerydd wythnos. | G |
| | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn adolygu ei gyfraniad i weithgareddau'r PDC, a bydd angen cyflwyno tystiolaeth gefnogol erbyn mis Medi. Casglu gwybodaeth am anghenion YGG mewn perthynas â swydd cydlynydd y Bartneriaeth (yn yr heddlu) er mwyn bwydo gwybodaeth i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. | Medi | Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Asesiad effaith wedi cyflwyno i'r bwrdd rhanbarthol. Penderfynwyd y Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i ymestyn y cyllid am flwyddyn ariannol hon, ac ei adolygu yn 2018/19. PDC i gysidro'r effaith i'r dyfodol. | G |
| | Cychwyn proses gyfreithiol o fewn yr Awdurdodau Lleol, sy'n galluogi i'r Cyngor benderfynu a fydd y Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (GMCD) (4 yn Ynys Môn a 7 yng Ngwynedd) yn cael eu datblygu yn Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC), neu'n cael eu dileu erbyn - Hydref 2017 (dyddiad wedi'i bennu o fewn y statud). | Hydref | Y ddau Awdurdod Lleol a'r Heddlu | Proses cyfreithiol bellach wedi'i cwblhau, a mae pob arwydd GMCD wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaeth. Mae copïau o'r gorchmynion gwreiddiol hefyd i'w gweld ar wefannau y ddau Gyngor. | G |
| | **Prosiectau comisiynwyd :**<br>· Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br>· Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog Cymorth Gyrfaoedd Cymru<br>· Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol | | **Adroddiad eithriadau:**<br>Dim materion i'w hadrodd, cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle. Mae rheolwraig newydd wedi penodi i'r prosiect yn Ynys Môn. Trafodaethau wedi cynnal parthed trefniadau rheoli perfformiad ac cynnyrch y prosiect. Prosiectau wedi cyflawni gwariant llawn. | | |

| 3 | **Ffocws: Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd**<br><br>**Mesurau: 1** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
|  | Peilot iechyd meddwl yn Ynys Môn – gweithio gyda Phrifysgol Bangor. Edrych ar ymarfer da, datblygu fframwaith i ddeall y ddarpariaeth bresennol ac adnabod bylchau yn y gwasanaeth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n arwain at alw uchel ar adnoddau'r heddlu Partneriaid – Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, yr Heddlu a Gwasanaeth Prawf Cymru | | Amlasiantaethol | HGC am werthuso'r cynllun peilot. Cais wedi gwneud i rannu'r gwerthusiad hynny gyda'r Bartneriaeth. | |
| | · Adolygu effeithiolrwydd/deilliannau'r peilot | Tachwedd | Mark Armstrong | Crynodeb gweithredol o'r *VARM* wedi dderbyn | G |
| | Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | | Rhanbarthol | Dim materion wedi dod i sylw PDC | G |
| | Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | | Rhanbarthol | Dim materion wedi dod i sylw PDC | G |
| | Bydd gan bob awdurdod cyfrifol gynllun gweithredu yn ei le ar gyfer PREVENT o fewn eu sefydliadau. Swyddogaeth y PCD fydd casglu gwybodaeth ar statws y weithgaredd ym mhob sefydliad er mwyn cadw trosolwg. | Diwedd y flwyddyn ariannol | Alun Roberts | Cynllun trosolwg wedi'i ddiweddaru, parhau i fonitro | G |
| | Cryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllun gwaith y swyddog cydlyniad a'r PDC i sicrhau y rhoddir sylw digonol i droseddau casineb a monitro tensiynau cymunedol. | Diwedd y flwyddyn ariannol | Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Uwch Swyddog PDC wedi cyfarfod â'r Swyddog Cydlyniant i rhannu cynlluniau gwaith. Dim gweithgaredd pellach wedi adnabod i'r Bartneriaeth ar hyn o bryd. | G |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiectau comisiynwyd :**<br>· Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)<br>· Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref risg uchel<br>· Dyfeisiadau ffons '*Skyguard'* i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref risg uchel<br>· Prosiect Tadau Gofalgar yng Gwynedd | **Adroddiad eithriadau:**<br>Dim materion i'w hadrodd, cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle. Prosiectau wedi cyflawni gwariant llawn. |

| 4 | **Ffocws: Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol)**<br><br>**Mesurau: 1** Lefel y cam-drin domestig<br>**2** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| Tudalen 54 | Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu'r trefniadau presennol a sicrhau cydweithio effeithiol. | Tachwedd | Maria Pritchard | Ymgyrch rhuban gwyn wedi gyflawni Tachwedd 22ain gyda cynrychiolaeth Gorwel a Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Derbyniwyd datgeliad hanesyddol, a chefnogaeth da yn gyffredinol gan y cyhoedd. Nifer o bamffledi gwybodaeth, larymau ymosodiad personol ayyb wedi dosbarthu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth. | G |
| | Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys | Ebrill 2018 | Amlasiantaethol | | G |
| | · y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan fod problemau wedi'u hadnabod gyda'r pecyn e-ddysgu. Rydym yn ceisio dileu'r pecyn drwy drafod gyda Llywodraeth Cymru. | Parhaus | Yr Adran Diogelwch Cymunedol / Llywodraeth Cymru | Datrysiad wedi cyrraedd gyda'r phecyn e-ddysgu sydd bellach yn cael ei weithredu yn y ddau Gyngor. | G |
| | · Strwythurau strategol a gweithredol rhanbarthol yn weithredol erbyn mis Ebrill 2018 | | | Yn cyrraedd y nod gyda'r datblygiad o'r strwythur rhanbarthol | G |
| | Cwblhau a chadarnhau'r Adolygiad Lladdiad Domestig yng Ngwynedd | | Morwenna Edwards Cyd- | Proses ALID ar y trywydd iawn ond ni fydd wedi cwblhau erbyn diwedd y | M |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 55 | | Diwedd y flwyddyn ariannol | Gaderiydd PDC / Nicola Stubbins Cadeirydd y panel DHR | flwyddyn ariannol. Bu cyfrifoldebau yr adolygiad yn parhau i'r cynllun lleol newydd blwyddyn nesaf | |
| | Adolygiad o'r ddarpariaeth a'r broses o wella diogelwch targedau | Medi | Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Adolygiad o'r broses wedi diweddu, ac o ganlyniad mae gweithred y gwasanaeth wedi newid. Mae'r *IDVAs* yn comisiynu gwaith yn uniongyrchol bellach yn hytrach na Gofal a Thrwsio. | G |
| | Dwyn unrhyw faterion sy'n deillio o grŵp Llywio MARAC at sylw'r PDC yn ôl yr angen | Diwedd y flwyddyn ariannol | Maria Pritchard Catherine Roberts | Dim materion yn codi, parhau i fonitro | G |
| | Monitro achosion o Gam-drin domestig a wneir gan blant yn erbyn eu rhieni – mae canfyddiad bod hyn ar gynnydd a mae angen rhagor o fonitro a dadansoddi | Diwedd y flwyddyn ariannol | Maria Pritchard | Disgwylir niferoedd cyfartalog o gyfeiriadau. Nid yw'n ymddangos fod cynnydd sylweddol yn y math o achosion yma ar hyn o bryd, a bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy MARAC. | G |
| | Dadansoddi'r wybodaeth a gafwyd o'r adolygiad lleol o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y wybodaeth a geir gan ddioddefwyr risg-uchel o gam-drin domestig yn cyfrannu at ddatblygiadau i'r dyfodol. | Gorffennaf | Yr Adran Diogelwch Cymunedol / Tîm ymchwil Cynefin | Gwybodaeth wedi dderbyn, adolygiad positif yn gyffredinol. Byddir y gwybodaeth yn ffurfio rhan o becyn gwybodaeth sydd yn cael ei casglu ar wasanaethau lleol, i ddarparu ar gyfer y dyfodol o gomisiynu yn rhanbarthol. | G |

**Prosiectau comisiynwyd :**

- Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)
- Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref risg uchel
- Dyfeisiadau ffons '*Skyguard*' i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref risg uchel
- Prosiect Tadau Gofalgar yng Gwynedd

**Adroddiad eithriadau:**

- Cyllid ychwanegol Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref) wedi cytuno gyda £4,075 o gyllid ychwanegol hyd at diwedd y flwyddyn. Cytundeb lefel gwasanaeth mewn lle. Prosiectau wedi cyflawni gwariant llawn.

| 5 | **Ffocws**: **Codi hyder i adrodd am drais rhywiol / Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc**<br><br>**Mesur**: **1** Lefel o droseddau rhywiol<br>**2** Nifer o droseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| Tudalen 56 | Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel.<br><br>Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am droseddau rhywiol a throseddau rhywiol sy'n ymwneud â'r we.<br><br>· Ystyried achosion achos diweddar o droseddau rhywiol sy'n ymwneud â'r we o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Rhagfyr | Stephen Wood /Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Un achos wedi adrodd y chwarter yma. Oherwydd y niferoedd isel o adroddiadau drwy'r flwyddyn, nid yw'n ymddangos fod cynnydd sylweddol yn y math o achosion yma ar hyn o bryd. Er hynny, bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r GCI. | G |
| | · Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol er mwyn asesu sut y gellid ei defnyddio'n lleol. Cynnwys cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni am seiberdroseddu. | Rhagfyr | | Gwybodaeth addas a dolenni i adnoddau allanol wedi osod ar wefannau y ddau Gyngor. | G |
| | **Prosiectau comisiynwyd:**<br>Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | | **Adroddiad eithriadau:**<br>Dim materion i'w hadrodd hyd yma. Prosiect wedi cyflawni gwariant llawn. | | |

| 6 | **Ffocws: Mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal**<br><br>**Mesur**: **1** Dangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| | Cynllun Camddefnyddio Sylweddau yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | Parhaus | Vicky Jones | Mae cyfeiriad strategol ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cael ei osod drwy strategaeth y BCA 2014-17 sydd wedi creu yn gynhwysol o asesiad anghenion poblogaeth Gogledd Cymru. Dim materion angen sylw. | G |
| | Sicrhau bod unrhyw fylchau lleol mewn gwasanaethau’n cael eu bwydo i’r cylch Comisiynu a chynllunio rhanbarthol, a bod Gwynedd ac Ynys Môn yn derbyn darpariaeth gydradd (ar draws y rhanbarth) | Diwedd y flwyddyn ariannol | Rhiannon Mair | Mae sicrhau tegwch a chydraddoldeb ar draws y rhanbarth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae unrhyw faterion neu fylchau mewn gwasanaeth yn cael ei fwydo yn ôl yn rheolaidd drwy’r flwyddyn. | G |
| | Cadw trosolwg ar geisiadau cyfalaf ar gyfer yr ardal – i’w cyflwyno i Fwrdd Cynllunio’r Ardal<br><br>· Mae Bangor a Chaergybi yn flaenoriaethau ar hyn o bryd, monitro'r cynnydd | O fewn amserlen y ceisiadau cyfalaf – wedi’i bennu gan Lywodraeth Cymru | Vicky Jones/ Rhiannon Mair/ Aelodau'r Bartneriaeth | Cymeradwyaeth LlC wedi dderbyn mewn egwyddor, a disgwyl cadarnhad BIPBC ym Mawrth. Dim materion angen sylw. Parhau i edrych ar ddatblygu cynnig hapfasnachol ar gyfer datblygu adeilad amlasiantaeth ym Mangor, ond nid oes mynegiad gan LlC i’r swm cyllid cyfalaf fydd ar gael i’r dyfodol. | G |

Tudalen 58

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad o wasanaethau plant a phobl ifanc | Gorffennaf | Vicky Jones/ Rhiannon Mair | Mae Bwrdd Rheoli ar y Cyd eisoes yn ei le erbyn hyn sy'n goruchwylio datblygiad y gwasanaeth newydd. Bydd uwch ymarferydd yn cychwn Mawrth 19eg, a cynhelir cyfweliadau ar gyfer y ddau swydd gwag arall ym Mawrth. | G |
| Ymyrraeth Fer Alcohol, cynnal sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr gydag aelod o'r ddau Awdurdod Lleol | Diwedd y flwyddyn ariannol | Vicky Jones/ Rhiannon Mair | Mae trafodaethau yn parhau i gysidro a ddylid cynnig sesiynau hyfforddi yn rhanbarthol. Nid oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer hyfforddiant yma ar hyn o bryd, felly rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Mae cynlluniau wedi'u sefydlu i edrych ar hyfforddiant amgen lle mae angen a nodwyd, er enghraifft ym maes Alcohol a Phobl Hŷn. | G |
| Cynnal hyfforddiant cyffuriau a gyrru, ymysg Heddweision | Diwedd y flwyddyn ariannol | Richie Green | Rhaglen yn parhau i fod ar waith. Ymestynnir y rhaglen i alluogi Swyddogion Asesu Profianwyr i hyfforddi myfyrwyr (yr Heddlu) yn ystod eu cyfnod prawf | G |

| 7 | **Ffocws: Lleihau aildroseddu (i dioddefwyr a throseddwyr)**<br><br>**Mesur: 1** Nifer sydd yn dioddefwyr o drosedd dro ar ôl tro<br>**2** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro (IOM, GCI) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | **Dyddiad cwblhau** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau CMG** |
| | Cynllun Camddefnyddio Sylweddau yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Strategol Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM). Ymdrechu i wneud y broses IOM fwy effeithiol, gan ddefnyddio IDIOM | Drwy'r flwyddyn | Uned diogelwch cymunedol | Bu adroddiad ar berfformiad *IOM* yn cael ei cyflwyno i'r Bartneriaeth ar sail pob 6 mis | G |
| | Targedu troseddwyr ifanc i leihau aildroseddu drwy weithredu cynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Drwy'r flwyddyn | Stephen Wood | Cynllun yn cael ei fonitro gan GCI | G |



| **Prosiectau comisiynwyd** | **Adroddiad eithriadau:** |
|---|---|
| · Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br>· Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog Cymorth Gyrfaoedd Cymru<br>· Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety) Tai Gogledd Cymru<br>· Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>· Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol | Dim materion i'w hadrodd, cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle |

## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru

Tra bo Bwrdd Cymunedau Diogel GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnydd technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r PDC lleol ganolbwyntio ar:

### 1. Rhwystro Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau YGG
- Cynyddu'r gyfradd adrodd am Droseddau Casineb
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer yr ail-droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac YGG ar gyfer ddioddefwyr a throseddwyr
- Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

### 2. Lleihau niwed a'r risg o niwed

- Lleihau camddefnyddio sylweddau
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol
- Monitro Tensiynau Cymunedol

### 3. Darparu Ymateb Effeithiol


- Lleihau aildroseddu
- Deall a mynd i'r afael ag effeithiau ymfudo ar yr agenda diogelwch cymunedol

## Cynllun lleol Gwynedd ac Ynys Môn

Bwriad y cynllun dilynol ar gyfer 2018/19 yw adeiladu ar y gwaith eang a wnaed dros y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at leihad sylweddol mewn Trosedd ac Anrhefn yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith a fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2018/19, gan gymryd i ystyriaeth arolwg diweddar diogelwch cymunedol a gomisiynwyd yng Ngwynedd a Môn. Bydd dadansoddiad pellach o'r canlyniadau yn cynorthwyo i lunio rhai o'r allbynnau, a byddwn yn ymateb yn unol â hynny. Bydd y cynllun hefyd yn ystyried yr asesiad strategol, yn ogystal â'r canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol.

Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi'r meysydd gwaith sydd eisoes wedi'u sefydlu, ond gan barhau i gyfrannu tuag at ein ffocws a'r meysydd blaenoriaeth.




Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â Chynllun y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac agenda diogelwch cymunedol y Bwrdd Cymunedau Diogel GC yw:

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19<br>Prosiect a Gomisiynwyd<br>Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws) | Cyfrifoldeb | Dyddiad Targed | Allbynnau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)<br>· Troseddau wrth ddefnydd technoleg<br>· Byrgleriaeth ddomestig<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Pob trosedd sy'n seiliedig ar y ddioddefwr<br>**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**3.** Byrgleriaeth breswyl (dangosydd newydd) | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Sefydlu grŵp effeithiol troseddau cyfundrefnol *(OCG)* ar gyfer rhanbarth Gorllewin (Gwynedd ac Ynys Môn) | **CH1**<br>**CH1**<br><br>**CH4** | Amlasiantaeth | 1. Sefydlu grŵp<br>2. Y ddau wasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd, yn aelodau o'r grŵp<br>3. Monitro allbynnau |
| | · Gwella rhannu gwybodaeth rhwng Gwasanaeth Cymdeithasol ac Amddiffyn y Cyhoedd parthed dioddefwyr sgâm | **CH3** | Tîm PDC All, Gwasanaeth Cymdeithasol ac Amddiffyn y Cyhoedd | 4. Hwyluso trafodaethau rhwng adrannau perthnasol a sefydlu proses i'w rhoi ar waith |
| | · Gwasanaeth Tai Ynys Môn a Chartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn cyflwyno strategaeth cynhwysiant digidol; angen ei fonitro i sicrhau nad yw'n cael effaith groes drwy gynyddu tlodi ac unigedd | **CH4** | Gwasanaeth Tai a CCG | 5. Monitro cynnyrch at diwedd y flwyddyn i asesu os oes unrhyw ganlyniad anfwriadol yn nhermau y rhai sydd yn agored i niwed |
| | · Ynys Môn i gyflwyno Parth Rheoli Galw heb Wahoddiad yn ôl yr angen | **CH3** | Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn | |

Tudalen 62

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | · Diogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos y Glas – defnyddio dull amlasiantaeth o ledaenu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn | **CH2** | Heddlu, Tîm PDC ALl | 6. Monitro llwyddiant y nifer ardaloedd oedd yn llwyddiannus i dderbyn Parth erbyn chwarter 4<br>7. Gwybodaeth wedi rhannu a lledaenu |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br>· Sgamiau wrth ddefnydd technoleg a phost: Addysgu a chynghori defnyddwyr, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>· Protocol bancio: Cynllun yn galluogi gweithwyr y banc i adrodd i'r Heddlu os drwgdybi'r twyll. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>· *TITAN* Gogledd Gorllewin: Cynrychiolaeth ar y grŵp Troseddau cyfundrefnol Gogledd orllewin. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd<br>· Trosedd ar garreg drws Cymru gyfan: Ymgyrch i mynd i'r afael a troseddau garreg drws yng Nghymru. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>· Unedau ymroddedig troseddau Uwch dechnoleg a Throseddau wrth ddefnydd technoleg. Partneriaid – Heddlu | | | |

**2** **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)

**Mesurau:**
1. Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
2. Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG

| Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau |
|---|---|---|---|
| · Ymateb i newidiadau cyllideb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) oddi fewn yr Heddlu; adolygu ac aildrefnu'r grŵp Partneriaeth Gweithredu Gymunedol *(CAP)*, yn cynnwys diweddaru cylch gorchwyl | **CH1** | Amlasiantaeth | 8. Sicrhau parhad effeithiol y grŵp *CAP* |
| · Sefydlu pa fforwm neu grŵp perthnasol dylasai Safonau Masnach fod yn rhan, parthed rhannu gwybodaeth yfed o dan oed | **CH1** | Amlasiantaeth | 9. Cyfathrebu effeithiol a grŵp wedi sefydlu |
| **Gwynedd**<br>· Yn ystod y 12 mis nesaf bu'r hyfforddiant Camfantesio'n Rhywiol ar Blant/Diogelu a ddarparwyd yn 17/18, a sydd hefyd yn rhan o amodau trwyddedu wedi'i ymgorffori ymhellach yn y ddogfen bolisi gwasanaeth newydd. Hefyd bydd Diogelwch Cymunedol yn cysylltu â'r swyddog ymgyrchoedd oddi fewn gwarchod y cyhoedd i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer codi ymwybyddiaeth o faterion fel y sy'n briodol. | **CH4** | Uned PDC a Gwarchod y Cyhoedd | 10. Polisi newydd yn weithredol<br>11. Cyfleon i gydweithio ar ymgyrchoedd wedi adnabod |
| · Sefydlu fframwaith a fydd yn galluogi rhannu gwybodaeth i gefnogi neu arall, parhad y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) | **CH2** | Heddlu, Tîm PDC ALI | 12. Sefydlu fframwaith<br>13. Gwybodaeth perthnasol ar gael i gefnogi parhad y Gorchmynion |

| Prosiectau a Gomisiynwyd: | Dyraniad ariannol 18/19: |
|---|---|
| Gweithgareddau Cyfeirio y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan gynnwys y cynllun SPLASH | £4,000 |

Tudalen 64

| | | |
|---|---|---|
| | Prosiect gwella cyfranogiad (gwneud iawn â'r gymuned) | £16,500 |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Tîm ymyrraeth cynnar: Dull Amlasiantaethol i weithredu ymyrraeth cynnar a mesurau ataliol. Partneriaid: Heddlu, Asiantaethau Tai ac eraill fel yr angen
- Gwerthiant o dan oed o gynnyrch oed cyfyngedig : Gwaith gorfodaeth ac ataliol parthed gwerthiant cynnyrch cyfyngedig oed, sef alcohol, tân gwyllt ayyb yn cynnwys pryniannau prawf. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Ymgyrchoedd lleol/diwrnodau codi ymwybyddiaeth: Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd penodol e.e. codi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, noson tân gwyllt/Calan gaeaf. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd, Heddlu, Gwasanaeth tân ac achub
- Llygredd sŵn: Monitro llygredd sŵn gan gynnwys defnyddio *app* Môn i gasglu tystiolaeth i arwain at gamau gorfodi. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd Ynys Môn a'r Heddlu
- Trwyddedu eiddo: Adolygu amodau ac amcanion trwydded pan fo'r angen. Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Ymgyrch MICRA – Targedu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yng Nghaernarfon. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg
- Ymgyrch Wax – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd wedi bod yn destun pryder yn y gymuned leol. Parhaus
- Ymgyrch Circuit – Troseddau'n seiliedig ar YGG yng Nghaergybi. Partneriaid – Heddlu ar y cyd a chlwb ieuenctid Canolfan Jessie Hughes, Yr Hwb, Pod Ieuenctid, Gwelfor, Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Grŵp tasg YGG Gwynedd: Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Partneriaid – Heddlu (dull amlasiantaeth)
- Ymgymryd â gwaith ataliol ym maes gwerthu alcohol dan oed - cynghori busnesau, hyrwyddo Her 25, cynnal profion prynu, a gorfodi yn ôl yr angen. Partneriaid - Safonau masnach a thrwyddedu yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu

| 3 | **Ffocws:** Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd<br>· Caethwasiaeth fodern<br>· Troseddau casineb<br>· Monitro tensiynau cymunedol<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**2.** Nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern (dangosydd newydd)<br>**3.** Nifer yr adroddiadau troseddau casineb (dangosydd newydd) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Rhanbarthol | 14. Ymateb i faterion lleol a all godi |
| | · Yn dilyn rhagarweiniad o bolisïau ac hyfforddiant i yrwyr tacsis parthed bregusrwydd; angen asesu beth yw effaith hyn erbyn diwedd y flwyddyn | **CH4** | Gwarchod y Cyhoedd | 15. Asesu'r effaith o weithredu polisi ac hyfforddiant |
| | · Derbyn asesiad o allbynnau y Panel Rheoli Risg a Pobl sy'n agored i niwed *(VARM)*, a penderfynu os yw'n addas ar gyfer datblygu'n Ngwynedd | **CH3** | Amlasiantaeth | 16. Asesiad llawn wedi dderbyn, trafodaethau wedi cynnal a gweithredu'n Ngwynedd os yw'n briodol |
| | · Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Rhanbarthol | 17. Ymateb i faterion lleol a all godi |
| | · Bydd pob aelod cyfrifol gyda cynllun gweithredol Atal *(Prevent)* wedi sefydlu oddi fewn eu sefydliadau. PDC i goladu yn unig, statws y gweithgaredd oddi fewn eu sefydliadau i gynnal trosolwg | **CH4** | Amlasiantaeth | 18. Parhau i fonitro a chadw trosolwg |
| | | **CH2** | Amlasiantaeth | |

Tudalen 66

<table>
<tr>
<td></td>
<td>· Ail ymweld a phenderfyniad yr Heddlu i leihau rhannu gwybodaeth CID16s gyda rhai asiantaethau / gwasanaethau i sicrhau, gan fod rhai yn cwestiynu, rhesymwaith y newidiadau<br><br>· Archwilio grwpiau gweithredol/strategol leol, i sicrhau nad oes bylchau neu ddyblygu o'r gwasanaethau</td>
<td>I'w benderfynu</td>
<td>Uned PDC</td>
<td>19. Cynnal trafodaethau a dod i gasgliad. Rhannu dealltwriaeth y sefyllfa gyda partneriaid<br><br>20. Awdit wedi cynnal a chwblhau</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td colspan="4">Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)<br><br>
· Cyfarfodydd amddiffyn y gymuned: Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gan yr Heddlu i fonitro tensiynau cymunedol. Partneriaid – Heddlu<br>
· Hyrwyddo'r 'Cynllun Prynwch gyda Hyder - Cymeradwyo Masnachwyr': Cynllun sy'n mynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus. Partneriaid Gwarchod y cyhoedd<br>
· Addysgu'r defnyddiwr: Addysgu gweithwyr gofal cartref, banc a'r swyddfa bost i allu adnabod dioddefwyr, a dioddefwyr oedrannus neu bregus<br>
· Tybaco anghyfreithlon a nwyddau ffug: Codi ymwybyddiaeth ar sut mae'n targedu pobl sy'n agored i newid gyllidol. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>
· Gorfodaeth Tai: Gorfodaeth Tai amlbreswyliaeth ac amodau byw llety. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>
· Archwiliad hylendid a diogelwch bwyd: Gorfodaeth a rhannu gwybodaeth parthed gweithwyr sector bwyd. Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>
· Archwiliad Iechyd a Diogelwch: Archwilio adeiladau e.e. Busnesau golchi ceir, bar ewinedd (nail bars) ayyb. Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>
· Tîm lleihau llogi'n fwriadol: Ymyraethau oddi fewn cymunedau ble mae risg wedi adnabod drwy fonitro tensiynau lleol. Partneriaid – Heddlu a Gwasanaeth Tân ac achub<br>
· Ymgyrch Tîm Safonau Masnach Cenedlaethol: Blaenoriaethu cyfeiriadau ar gyfer dyfeisiadau atal galwadau, i breswylwyr sydd yn byw gyda dementia. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd<br>
· Unedau Caethwasiaeth Fodern a Troseddau Casineb ymroddedig. Partneriaid – Heddlu<br>
· Ymgyrch Caramba - Ymgyrch ar y cyd â Môn, Gogledd Gwynedd i fynd i'r afael â throseddau treisgar yn gysylltiedig â'r economi nos, gyda chefnogaeth gref gan Swyddogion Gwirfoddol. Partneriaid, Heddlu yn unig</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | **Ffocws:** Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol)<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y cam-drin domestig<br>**2.** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3.** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**4.** Nifer o droseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro (dangosydd newydd)<br>*Dangosydd newydd ychwanegol bosib – nifer yr erlyniadau cam-drin domestig llwyddiannus | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu'r trefniadau presennol a sicrhau cydweithio effeithiol. | **CH3** | Uned PDC, ALI | 21. Codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch Rhuban Gwyn |
| | · Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys | | | |
| | · Gweithredu yn lleol, anghenion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan gydymffurfio a cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a'r bwrdd Rhanbarthol | **CH4** | Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Tân<br><br>Cyngor Gwynedd | 22. Cyflawni y ddarpariaeth leol i'r lefel ofynnol erbyn diwedd y flwyddyn |
| | · Cwblhau'r camau olaf o weithredu strwythurau rhanbarthol parthed y tîm cefnogi rhanbarthol | **CH2** | | 23. Tîm rhanbarthol wedi sefydlu a chydymffurfiwyd â'r holl faterion Adnoddau Dynol |
| | · Sicrhau bod fframwaith wedi sefydlu ar gyfer defnydd cywir o gyllid newydd ar gyfer caledu targed | **CH2** | Adrannau Cefnogi Pobl y ddau Gyngor | 24. Fframwaith wedi sefydlu ac yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn |
| | · Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i adolygu llwybrau cyfeirio parthed Trais yn y Cartref | **CH2** | CCG | 25. Llwybrau cyfeirio addas wedi adnabod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | · Adolygu'r llwybr dioddefwyr ar y cyd gyda darparwyr arbenigol Trais yn y Cartref a'r hwb dioddefwyr Gogledd Cymru, i sicrhau eglurder ac i osgoi dyblygu pan yn cysylltu gyda dioddefwyr | **CH1** | Heddlu, Uned PDC, Gorwel a'r Hwb Dioddefwyr | 26. Sicrhau cytundeb ar sut i gysylltu â dioddefwyr |
| | · Cyfrannu tuag at trafodaethau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref parthed dyfodol Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD) i sicrhau fod mewnbwn lleol yn ffurfio rhan o'r drafodaeth | **CH3** | Amlasiantaeth | 27. Barn lleol yn cael ei fwydo mewn i'r broses<br>28. Allbynnau o'r adroddiad yn cael ei weithredu'n lleol |
| | · Gweithredu'n effeithiol ar gyfrifoldebau ALlD ar draws y ddwy sir pan fydd angen | **Mae pob adolygiad ALlD yn broses 2-3 mlynedd** | Cyfrifoldeb PDC | 29. Sicrhau bod pob ALlD cyfredol neu i'r dyfodol ar y trywydd iawn |
| Tudalen 69 | · Adolygu'r polisi llwybr cyfeirio ar gyfer rhaglen Tadau Gofalgar i sicrhau nad yw'r risgiau o ddatgelu i'r troseddwr yn creu risg ychwanegol i'r dioddefwr | **CH1** | Grŵp Llywio MARAC | 30. Llwybr cyfeirio i'w gytuno gyda'r darparwr gwasanaeth. Ni fydd cyfeiriadau uniongyrchol bellach yn cael eu gwneud o'r *MARAC.* |
| | · Adolygu'r llwybr cyfeirio ar gyfer rhannu *CID 16* gyda darparwyr trydydd sector er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RDDC, rheoli llwyth achosion, a disgwyliadau ar gyfer darparwyr y trydydd sector | **CH1** | Grŵp Llywio MARAC | 31. Llwybr i'w hadolygu, ei ddatblygu a'i weithredu rhwng partneriaid (Heddlu a'r Trydydd Sector) |

| | **Prosiectau a Gomisiynwyd:** | **Dyraniad ariannol 18/19:** |
|---|---|---|
| | *Skyguard* dyfeisiadau ffôn i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig | £2,700 |
| | Gwasanaeth Gwella Diogelwch (diogelu cartrefi) | £8,000 |
| | Prosiect Tadau Gofalgar yng Ngwynedd | £10,000 |
| | Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Cam-drin Domestig | £58,461.34 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **5** | **Ffocws:** Cynyddu hyder i adrodd am drais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br>· Camfantesio ar blant yn rhywiol (CBR)<br>· Achosion risg uchel<br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y troseddau rhywiol<br>**2.** Nifer y troseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Cyfrifoldeb PDC | 32. Ymateb i faterion lleol a all godi |
| | · Craffu cynlluniau gwaith y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant i sicrhau bod negeseuon codi ymwybyddiaeth i blant a phobl ifanc yn digwydd ac yn addas | **CH3** | Cyfrifoldeb PDC | 33. PDC gyda'r wybodaeth berthnasol i drafod unrhyw fylchau ac i weithredu newid os angen |
| | · Sicrhau dealltwriaeth o waith y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd i alluogi adnabod cyfleon | **CH2** | Cyfrifoldeb PDC | 34. Sefydlu cysylltiadau newydd a dealltwriaeth o waith y Bartneriaeth |
| | · Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol er mwyn asesu sut y gellid ei defnyddio'n lleol | **CH4** | Cyfrifoldeb PDC | 35. Adolygiad desg fwrdd wedi cwblhau, a deunydd priodol i'w ddefnyddio'n lleol os oes angen. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br>· Trwyddedu tacsis: Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu Gorfodol a Gwahardd (DBS), ac yn y camau olaf o weithredu hyfforddiant diogelu gorfodol, fel gofyniad ar gyfer y drwydded. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd, Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn<br>· Tîm ONYX Cam fanteisio ar blant yn rhywiol (CBR): Wedi sefydlu oddi fewn timau lleol yr Heddlu ar gyfer mynd i'r afael a CBR. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai | | | |

| 6 | **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br>· Cyflenwi cyffuriau cyfundrefnol<br>· Gyrru o dan ddylanwad cyffuriau<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Parhau i ddatblygu bid cyfalaf ar gyfer pwrcasu adeilad newydd camddefnyddio sylweddau yng Nghaergybi (yn ddibynnol ar argaeledd o gyllid cyfalaf yn 18-19) | **CH3** | Rhiannon Mair | 36. Os oes cyllid ar gael; cynnig llwyddiannus yn cael ei dderbyn |
| | · Parhau i geisio adnabod adeilad addas ym Mangor ac o bosib i'w gynnwys fel menter ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd | **CH3** | Rhiannon Mair | 37. Trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd parthed menter ar y cyd<br>38. Adnabod adeilad priodol a datblygu cynnig |
| | · Hyrwyddo a gwneud defnydd o taclo'r taclau ar bob cyfle priodol | **CH4** | Amlasiantaeth | 39. Adnabod cyfleon a gweithredu |
| | · Yn dilyn proffilio lleol o gangiau cyffuriau cyfundrefnol ym Mawrth, derbyn adroddiad gan ymgynghorwyr a chynnal trafodaethau lleol, i edrych ar ba weithred sydd angen yn deillio o'r adroddiad | **CH4** | Amlasiantaeth | 40. Derbyn ac adolygu adroddiad lleol<br>41. Ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu lleol sy'n ofynnol |
| | · Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd llinellau sirol *(county lines)*, fel sy'n briodol drwy'r flwyddyn | **CH4** | Heddlu | 42. Adnabod achlysuron o godi ymwybyddiaeth |
| | · Datblygu adnodd arbenigol camddefnyddio sylweddau oddi fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn (adran teuluoedd gwydn) gyda chyfraniad gan y Bwrdd Cynllunio Ardal | **CH2** | Rhiannon Mair | 43. Adnodd wedi adnabod ac yn ei le |

ATODIAD 2

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiectau a Gomisiynwyd:** | **Dyraniad ariannol 18/19:** |
| | Swyddog Datblygu Cefnogaeth Iechyd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £32,500 |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Arolwg diogelwch tân yn y cartref: Arolwg ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus oherwydd camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Unigolion sy'n destun Gorchymyn Adferiad Cyffuriau: Cwrs gorfodol ar iechyd a lles, fydd yn pwysleisio ymarferion i leihau niwed – Gwasanaeth Prawf Cymru
- Hyrwyddo ymgyrchoedd lleol: Hyrwyddo ymgyrch diogelwch y ffyrdd y 5 angheuol, i godi ymwybyddiaeth o yfed o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub
- Ymgyrch RATTLE: Targedu y rhai sy'n delio cyffuriau yng Ngwynedd a Môn. Partneriaid – Heddlu, Cynghorau

| 7 | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**2.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro oed 18+ (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**3.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro, oedran 12-17(3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
| | · Angen cryfhau rhannu gwybodaeth rhwng Prawf a Gwarchod y Cyhoedd; ceisio gwneud hyn drwy y grŵp newydd gangiau cyffuriau cyfundrefnol | **CH2** | Amlasiantaeth | 44. Gwellha rhannu gwybodaeth a deallusrwydd |
| | · Sefydlu rhestr cysylltiadau amlasiantaeth ac i'w ddiweddaru yn chwarterol | **CH4** | Amlasiantaeth | 45. Creu rhestr cyswllt amlasiantaeth wedi'i ddiweddaru'n chwarterol gan partneriaid |
| | · Sicrhau trawsnewid effeithiol o'r GCI i wasanaethau Prawf a Chwmni Adsefydlu Cymunedol | **CH1** | Prawf, GCI a CAC | 46. Trafodaethau i'w gynnal, a threfniant newydd i gytuno ac i'w rhoi ar waith ar gyfer trawsnewid |
| | **Prosiectau a Gomisiynwyd** | **Dyraniad ariannol 18/19:** | | |
| | Swyddog adfer a rhyddhau ar drwydded dros dro y GCI | £12,700 | | |
| | Gwell mynediad at Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, Swyddog Cefnogi Gyrfaoedd | £22,205 | | |
| | Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol GCI | £53,000 | | |
| | Swyddog ataliol a biwro ataliol y GCI | £103,015 | | |
| | Swyddog cymorth yn ôl yr angen ar gyfer adsefydlu a throsglwyddo Tai Gogledd Cymru | £32,500 | | |
| | Prosiect gwella cyfranogiad GCI (gwneud iawn â'r gymuned) | £16,500 | | |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd blaenoriaeth)**<br><br>· Ymgyrch Phoenix: targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o droseddu neu aildroseddu a'u cynnwys mewn gweithgareddau positif. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu. | | | |

| | |
|---|---|
| | · Prosiect WISDOM: Ymateb amlasiantaethol i ail droseddwyr risg uchel wedi sefydlu oddi fewn un o adeilad y Cyngor. Partneriaid – Heddlu (Uned Gwarchod y Cyhoedd) a Prawf (Uned troseddwyr rhywiol a threisgar)<br>· Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ar ôl euogfarn (CBO): Gorchymyn ar ôl euogfarn sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf difrifol a pharhaus. Partneriaid - Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd, Prawf<br>· Ymyrraeth Gynnar (EIT): Ymateb amlasiantaeth ymyrraeth cynnar. Partneriaid – Arweinir gan yr Heddlu , amlasiantaeth |

# Llinellau Sirol

### Beth mae o'n feddwl?

Llinellau Sirol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ffordd y mae gangiau sy'n hanu o ardaloedd trefol mawr, yn teithio i leoliadau eraill megis trefi gwledig neu drefi glan môr i werthu cyffuriau Dosbarth A. Fel arfer, mae'r gangiau yn recriwtio ac yn manteisio ar blant a phobl fregus i gario'r cyffuriau a'r arian parod. Fel arfer, bydd y defnyddwyr yn gofyn am gyffuriau ar linell ffôn symudol y mae'r gang yn ei defnyddio. Bydd bobl wedyn yn teithio'n rheolaidd rhwng lleoliadau trefol y gangiau a'r lleoliadau yn y wlad neu ar yr arfordir i gasglu arian a dosbarthu cyffuriau.



### Beth i edrych allan amdano?


- Plentyn neu berson ifanc (gall fod mor iau â 12 oed) mewn canolfan siopa neu ar y stryd fawr, neu ar gludiant cyhoeddus yn ystod oriau ysgol neu oriau anarferol (e.e. yn gynnar yn y bore, yn hwyr yn y nos)
- Plentyn neu berson ifanc sydd ddim yn ymddangos yn gyfarwydd â'r ardal leol (wedi'u hanfon o ardaloedd eraill i werthu cyffuriau?)
- Cyfoedion neu grŵp yn cymryd rheolaeth ac yn aflonyddu'r plentyn neu'r person ifanc
- Plentyn neu berson bregus sy'n mynd ati'n fwriadol i osgoi ffigyrau ag awdurdod megis swyddogion yr heddlu neu swyddogion diogelwch (efallai'n gwerthu cyffuriau?)
- Mwy o bobol na'r arfer yn galw heibio cyfeiriad lleol, weithiau ar adegau anghymdeithasol
- Cerbydau neu bobl amheus mewn cyfeiriad
- Cymydog nad oes neb wedi ei weld ers tro

### Gyda phwy ddylech chi gysylltu?

Os ydych yn pryderu fod un o'r gangiau cyffuriau yn manteisio ar rywun cysylltwch â'r heddlu trwy ffonio 101, neu galwch **999** bob tro mewn argyfwng.

Os ydych yn gweld rhywbeth sydd ddim yn teimlo'n iawn, neu sy'n ymddangos yn amheus, gallwch adrodd am eich pryderon yn ddienw wrth Crimestoppers ar 0800 555 111, neu fe allwch anfon ffurflen wedi'i chwblhau ar lein na ellir ei holrhain yn Crimestoppers-uk.org.

# Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant



## Beth mae o'n feddwl?

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw gorfodi neu gymell plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n ffurf o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o daliad, all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu annwyldod. Mae cyfuniad o'r ffaith fod person ifanc yn ddiamddiffyn a'r broses baratoi a ddefnyddir gan y tramgwyddwyr yn ei gwneud hi'n anodd i'r person ifanc wybod natur ecsbloetio perthnasoedd ac ni allant roi caniatâd gwybodus.

Nid yw CSE bob amser yn golygu cyswllt corfforol; gall ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg, neu fod yn gyfuniad o'r ddau.

## Beth i edrych allan amdano?

- Mynd ar goll am gyfnodau o amser neu'n cyrraedd gartre'n hwyr yn aml
- Colli ysgol neu aflonyddu ar y dosbarth.
- Wedi cael anrhegion neu bethau na allent eu hegluro
- Yn dioddef o broblemau iechyd all fod yn arwydd o haint a drosglwyddir yn rhywiol
- Hwyliau'n newid
- Defnyddio cyffuriau a/neu alcohol
- Arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol, megis bod yn rhy gyfarwydd â phobl ddieithr, gwisgo mewn modd rhywiol neu anfon lluniau rhyw ar ffôn symudol ("sexting")
- Gallant hefyd ddangos arwyddion o niwed corfforol heb eglurhad, megis cleisiau a llosgiadau sigarét

## Gyda phwy ddylech chi gysylltu?

Os oes gennych unrhyw bryderon am gamfanteisio'n rhywiol ar blant gallwch gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ar 01248 752722 neu 01248 752733 rhwng 8:45yb a 5:00yp.

Fel arall, gallwch siarad gyda Gweithiwr Cymdeithasol ar 01248 353551 y tu allan i oriau swyddfa.

Gallwch hefyd gysylltu â'r heddlu trwy alw 101, neu galwch **999** bob tro mewn argyfwng.

Gallwch adrodd am eich pryderon yn ddienw wrth Crimestoppers ar 0800 555 111, neu fe allwch anfon ffurflen wedi'i chwblhau ar lein na ellir ei holrhain yn Crimestoppers-uk.org.

# Radicaliaeth ac atal eithafiaeth

**Beth mae o'n feddwl?**

Pwrpas Atal yw diogelu pobl a chymunedau rhag terfysgaeth, a stopio pobl rhag cael eu denu tuag at derfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth.

Mae radicaliaeth yn cyfeirio at y broses o berson yn dod i gefnogi terfysgaeth a ffurfiau ar eithafiaeth yn arwain at derfysgaeth.

Mae radicaliaeth fel arfer yn broses, nid digwyddiad. Yn ystod y broses hon, mae'n anochel y bydd cyfleoedd i ymyrryd er mwyn lleihau'r perygl o unigolion yn cael eu denu at ideoleg eithafol a'r achosion, a'i ddiogelu o/hi rhag y perygl o radicaliaeth. Mae'n bwysig gallu adnabod y ffactorau a all gyfrannu tuag at radicaliaeth unigolyn.

---

**Beth i edrych allan amdano?**

Mae pobl yn cael eu radicaleiddio pan fo meddylfryd ac ymddygiad person yn sylweddol wahanol i sut mae'r rhan fwyaf o aelodau'r gymdeithas a'r gymuned yn gweld materion cymdeithasol ac yn cyfrannu'n wleidyddol.  Dim ond nifer fechan o bobl sy'n radicaleiddio a gallant ddod o amrediad eang o grwpiau ethnig, cenedlaethol, gwleidyddol a chrefyddol.

| | |
|---|---|
| • Teimladau o annhegwch ac anghyfiawnder | • Teimlo dan fygythiad |
| • Yr angen am hunaniaeth, ystyr a pherthyn | • Yr angen am statws |
| • Tueddiad i gael eu trwytho | • Agweddau sydd yn cyfiawnhau troseddu |
| • Awydd am newid gwleidyddol neu foesol | • Ymglymiad teulu a ffrindiau mewn eithafiaeth |
| • Cael eu dylanwadu neu eu rheoli gan grŵp | • Problemau iechyd meddwl perthnasol |
| • Uniaethu'n ormodol gyda grŵp neu ideoleg | • Meddylfryd o ‘nhw a ni’ |

---

**Gyda phwy ddylech chi gysylltu?**

- Cadeirydd enwebedig Channel, Gwasanaethau Cymdeithasol (neu unrhyw swyddog priodol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn)
- Swyddogion Atal Heddlu Gogledd Cymru
- PC 149 Rob Darnell   Rob.Darnell@nthwales.pnn.police.uk (07896172825)
- PS 1739 Neal Parkes Neal.Parkes@nthwales.pnn.police.uk (07768035316)
- Heddlu Gogledd Cymru (Rhif dim argyfwng 101)

# Caethwasiaeth Fodern

### Beth mae o'n feddwl?



Mae Caethwasiaeth Fodern yn drosedd ddifrifol ac yn un sy'n aml yn cael ei chuddio lle y manteisir ar bobl er budd troseddol. Mae'n cynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl a gall ddigwydd mewn unrhyw gymuned. Er mai pobl fregus sy'n cael eu targedu amlaf, gall unrhyw un fod yn ddioddefwr.

### Beth i edrych allan amdano?

Gall dioddefwyr caethwasiaeth fodern fod yn unrhyw le. Mae rhai diwydiannau penodol lle maent i'w gweld yn fwy aml, megis bariau trin ewinedd, cyfleusterau golchi ceir, amaeth a physgota, safleoedd adeiladu a'r diwydiant rhyw. Mae sefyllfaoedd risg uchel eraill yn cynnwys pan fo angen hwb sydyn o weithwyr yn y gweithlu, megis staff tymhorol neu weithwyr adeiladu ar gyfer digwyddiad mawr. Fodd bynnag, efallai y bydd dioddefwyr i'w gweld mewn canolfannau cludiant, gwasanaethau iechyd a mannau cyhoeddus eraill neu mewn cartrefi preifat.

| | |
|---|---|
| Ymddangosiad: Gall dioddefwyr edrych fel eu bod yn hanner llwgu, yn flêr neu'n dawedog. Gallent arddangos arwyddion o gam-drin corfforol neu seicolegol. | Ar eu pen eu hunain: Prin iawn fydd y dioddefwyr yn cael teithio ar eu pen eu hunain, mae'n ymddangos fod eraill yn eu rheoli neu'n dylanwadu arnynt, nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad cymdeithasol gydag eraill neu nid ydynt i weld yn gyfarwydd â'r ardal. |
| Amodau byw gwael: Gall y dioddefwyr fod yn byw mewn llety budr, rhy fach neu orlawn, neu'n gweithio yn yr un lle ag y maent yn byw. | Amseroedd teithio anarferol: Efallai bod y dioddefwyr yn cael eu gollwng neu eu casglu o'r gwaith un ai'n gynnar iawn neu'n hwyr iawn yn y nos. Efallai bod rhywun yn eu gyrru rhwng lleoliadau, yn hytrach na'u bod yn cerdded i/o'r gwaith. |
| Ychydig iawn neu ddim eiddo personol: Efallai nad oes gan y dioddefwyr unrhyw ddogfennau i brofi pwy ydynt, efallai nad oes ganddynt lawer o bethau a gallent fod yn gwisgo'r un dillad pob diwrnod. Efallai nad ydi'r dillad y maent yn eu gwisgo yn addas ar gyfer y math o waith y maent yn ei wneud. | Cyndyn i chwilio am help: Gall dioddefwyr geisio osgoi gwneud cyswllt lygaid yn llygaid, ymddangos yn ofnus neu'n betrusgar wrth siarad â phobl ddieithr ac yn ofnus o bobl sy'n gorfodi'r gyfraith. Mae hyn yn aml am nad ydynt yn gwybod pwy i'w ymddiried ynddo na lle i gael help, ofn cael eu hel o'r wlad neu ofn y byddant hwy neu eu teulu'n dioddef trais. |

### Gyda phwy ddylech chi gysylltu?

- Rhowch wybod i'r heddlu trwy alw 101, neu trwy ddefnyddio'r gwasanaeth sgwrsio byw dienw (os ydych yn ardal Gogledd Cymru)
- Gallwch anfon e-bost at DS Zoie Dunkerley, Ymgynghorydd Tactegol Caethwasiaeth Fodern: MDSunit@nthwales.pnn.police.uk
- Gallwch adrodd wrth Crimestoppers ar 0800 555 111, neu fe allwch anfon ffurflen wedi'i chwblhau ar lein na ellir ei holrhain yn Crimestoppers-uk.org.
- Rhowch wybod i'r Llinell Ffôn Caethwasiaeth Fodern ar 0800 012 1700 - sydd yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol
- Rhowch wybod i BAWSO (sy'n darparu cefnogaeth i bobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru) drwy alw 0800 731 8147

# Cam-drin Domestig



### Beth mae o'n feddwl?

Mae Cam-drin Domestig yn unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad bygythiol, gorfodol neu reolaethol, trais neu gamdriniaeth rhwng oedolion 16 oed a throsodd sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos, neu aelodau o'r teulu, beth bynnag yw eu rhyw a'u rhywioldeb.

### Beth i edrych allan amdano?

Gall Trais Domestig gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig, i'r mathau a ganlyn o gam-drin:

| | |
|---|---|
| Seicolegol: (gall cam-drin seicolegol fod yn eiriol neu'n aneiriol. Y bwriad yw tanseilio hyder ac annibyniaeth dioddefwyr gyda'r bwriad iddynt gydweithredu'n well ac i leihau eu gallu i adael) | Corfforol: (dyrnu, slapio, taro, brathu, pinsio, cicio, tynnu gwallt, gwthio, pwnio ac ati) |
| Rhywiol: (treisio, neu unrhyw sefyllfa lle mae unigolyn yn cael ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol pan nad ydyw eisiau cymryd rhan, pan fo hynny'n beryg neu pan fo'n ddiraddiol) | Ariannol: (defnyddio neu gamddefnyddio arian sy'n cyfyngu ac yn rheoli'r hyn y gall eu partner ei wneud nawr ac yn y dyfodol a'u rhyddid i ddewis) |
| Emosiynol: (Cam-drin geiriol megis gweiddi, galw enwau, gweld bai a chodi cywilydd. Ynysu, brawychu, bygwth trais a rheoli bob dim) | |

| | |
|---|---|
| Ymddygiad sy'n rheoli yw: amrediad o weithrediadau wedi'u cynllunio er mwyn gwneud i berson fod yn israddol ac/neu yn ddibynnol gan eu hynysu oddi wrth ffynonellau o gefnogaeth, gan ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu ar gyfer gwneud elw personol, gan eu hamddifadu o'r pethau angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dihangfa ac yn rheoleiddio'u hymddygiad bob dydd. | Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithrediadau o ymosodiad, bygythiadau, codi cywilydd a chodi braw neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr. |

Ym mis Rhagfyr 2015, cafodd trosedd cam-drin domestig newydd ei chynnwys mewn deddfwriaeth i ymdrin ag ymddygiad gorfodol ac ymddygiad sy'n rheoli.

### Gyda phwy ddylech chi gysylltu?

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn cam-drin eu partner neu aelod o'r teulu neu'n dreisgar tuag atynt, mae modd i chi gael help a chefnogaeth yn gyfrinachol trwy gysylltu â'r gwasanaethau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llinell gymorth am ddim Byw Heb Ofn: 0808 8010 800<br>Gwasanaeth testun: 078600 77333<br>E-bost: info@livefearfreehelpline.wales | Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch<br>Rhif ffôn: 01248 690 077 / 01248 679 052<br>E-bost:enquiries@bangorwomensaid.org |
| Gorwel, Llangefni<br>Ffôn: 01248 750 903 | Gallwch hefyd gysylltu â'r heddlu trwy alw 101, neu galwch **999** bob tro mewn argyfwng. |

Os oes gennych **unrhyw amheuon** ynghylch unrhyw un o'r materion uchod, gallwch gysylltu'n uniongyrchol ag Uned Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn i drafod eich pryderon ar 01286 679 047 neu anfonwch e-bost at PartneriaethDiogelwchCymunedol@gwynedd.llyw.cymru.

**Gwrandewch ar eich greddf.** Os ydych yn pryderu am unigolyn neu weithgaredd yn eich cymuned ac nad yw pethau'n edrych neu'n teimlo'n iawn yna mae hi'n bosib iawn fod rhywbeth o'i le.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Tudalen 81

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

Eitem 6 ar y Rhaglen

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Mai, 2017** | |
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Pwyllgor 1 /3.30yh | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd |
| | **Mehefin, 2017** | |
| **27 Mehefin 2017**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Hydref, 2017** | |
| **9 Hydref 2017**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd) | Monitro perfformiad/datblygu polisi |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Tachwedd, 2017** | |
| **14 Tachwedd 2017**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (Diweddariad) | Datblygu Polisi |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Chwefror, 2018** | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad - Perfformiad Ysgolion Môn2016 -2017 | Monitro perfformiad |



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion | - |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Mawrth, 2018** | | |
| **8 Mawrth, 2018**<br>Siambr y Cyngor / 2yh | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd | Datblygu Polisi |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Datblygu Polisi |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Ebrill, 2018** | | |
| **10 Ebrill 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Mehefin, 2018** | | |
| **19 Mehefin, 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - |
| | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad<br>(Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Gorffennaf, 2018** | | |
| **9 Gorffennaf 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad |
| | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi |
| **Medi, 2018** | | |
| **24 Medi 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Monitro perfformiad |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| **Hydref, 2018** | | |
| **15 Hydref 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) | Ymgynghoriad |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) | Monitro Perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| **Tachwedd, 2018** | | |
| **13 Tachwedd 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC ( i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Chwefror , 2019** | | |
| **5 Chwefror 2019**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Mawrth, 2019** | | |
| **12 Mawrth 2019**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Medrwn Môn | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Ebrill, 2019** | | |
| **9 Ebrill 2019**<br>Committee Room 1/ 2pm | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Mehefin / Gorffennaf , 2019** | Sgriwtini o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **i'w gadarnhau** | Fargen Twf Gogledd Cymru | |
| **i'w gadarnhau** | Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | |
| **i'w gadarnhau** | Safleon Sispsiwn a Theithwyr ( Cynllunio a briffio aelodau gyntaf) | |
| **i'w gadarnhau** | Canllawiau Atodol Cynllunio – Iaith Gymraeg (i'w gadarnhau) | |

This page is intentionally left blank